# Datblygu ETS y DU: ymateb cychwynnol Awdurdod ETS y DU ynghylch cynigion i'w gweithredu erbyn 2023

Ymateb ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

Medi 2022

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth trydydd parti â hawlfraint arni, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:
enquiries@beis.gov.uk

# Contents


Cyflwyniad ____ 5

Ymateb y Llywodraeth ____ 7

Hediadau o'r DU i'r Swistir ____ 7

Crynodeb o'r cynnig ____ 7

Crynodeb o'r ymatebion ____ 8

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 8

Ymweliadau Safle Rhithiol ar gyfer Hedfanaeth ____ 10

Crynodeb o'r cynnig ____ 10

Crynodeb o'r ymatebion ____ 10

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 10

Meini Prawf Cynaliadwyedd ar gyfer Tanwydd Hedfan Cynaliadwy ____ 11

Crynodeb o'r cynnig ____ 11

Crynodeb o'r ymatebion ____ 11

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 12

Diwygio'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch yn sgil blwyddyn 2020 COVID. ____ 13

Crynodeb o'r cynnig ____ 13

Crynodeb o'r ymatebion ____ 14

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 15

Diwygiadau gweithredol a gafodd eu cynnwys ym Mhennod 9 "Datblygu ETS y DU". ____ 17

Prif arbedion ynni ____ 17

Crynodeb o'r ymatebion ____ 18

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 18

Cyfran hyblyg ____ 18

Crynodeb o'r cynnig ____ 18

Crynodeb o'r ymatebion ____ 19

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 19

Trwyddedu, monitro, adrodd a dilysu (PMRV) ____ 19

Diffiniad o ddilysydd ____ 19

Crynodeb o'r ymatebion ____ 20

Ymateb Awdurdod ETS y DU ____ 20

Trosglwyddo trwyddedau, uno a hollti ____ 20

Trin trosglwyddiadau ac uniadau llawn 20
Crynodeb o'r cynnig 20
Crynodeb o'r ymatebion 21
Ymateb Awdurdod ETS y DU 22
Ymdriniaeth â throsglwyddiad rhannol a hollti dyraniad 22
Crynodeb o'r cynnig 22
Crynodeb o'r ymatebion 23
Ymateb Awdurdod ETS y DU 24
Potensial cynhesu byd-eang 24
Crynodeb o'r cynnig 24
Crynodeb o'r ymatebion 25
Ymateb Awdurdod ETS y DU 25
Diweddariadau sydd eu hangen i EN ISO 14065 25
Crynodeb o'r cynnig 25
Crynodeb o'r ymatebion 25
Ymateb Awdurdod ETS y DU 26
Cynnig i HSE ailymuno â'r cynllun 26
Crynodeb o'r cynnig 26
Crynodeb o'r ymatebion 26
Ymateb Awdurdod ETS y DU 27
Diwygiadau gweithredol pellach i'w cynnwys mewn deddfwriaeth gynlluniedig. 27
Y Camau Nesaf 30
Atodiad Dadansoddol 31
Cyflwyniad 31
Hediadau o'r DU i'r Swistir 32
Prif effeithiau 32
Dadansoddiad 32
Risgiau a chyfyngiadau sy'n weddill 34
Atodiad Dadansoddol - Diwygiadau i'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch yn sgil blwyddyn 2020 COVID. 35
Dull Dadansoddol 35
Crynodeb o'r prif effeithiau 36
Risgiau a chyfyngiadau sy'n weddill 36

# Cyflwyniad

Sefydlwyd ETS y DU ar 1 Ionawr 2021 gan Awdurdod ETS y DU (Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon). Rydym wedi ymrwymo i gynyddu uchelgais y cynllun a sicrhau ei fod yn chwarae rhan hollbwysig er mwyn cyrraedd targedau hinsawdd uchelgeisiol y DU, gan gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050.

Ym mis Mawrth 2022[1], cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ar becyn o gynigion i ddatblygu ETS y DU, sy'n anelu i sicrhau ei fod yn gyrru gostyngiadau mewn allyriadau tuag at ein targedau uchelgeisiol, ac yn parhau i ddangos arweinyddiaeth y DU o ran prisio carbon[2]. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion ynghylch cysoni cap y cynllun â'n targed sero net, adolygu rôl y polisi Dyraniadau Am Ddim fel offeryn i liniaru dadleoli carbon yng nghyd-destun y cap cyson â sero net, a'r ystyriaethau cychwynnol ynghylch ehangu cwmpas masnachu allyriadau ar draws yr economi.

I weithredu nifer fach o gynigion yn ymgynghoriad mis Mawrth, mae angen deddfwriaeth cyn blwyddyn gynllun 2023. Gan hyn, rydym yn ymateb yn gynnar i'r cynigion hyn i osod ein safbwyntiau terfynol gerbron rhanddeiliaid, cyn i'r safbwyntiau hynny ddod i rym. Byddwn yn rhoi ymateb llawn ymhen amser i weddill y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn ymgynghoriad mis Mawrth, gan gynnwys cysoni cap ETS y DU â sero net.

Mae'r ymateb hwn yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd a phenderfyniadau'r Awdurdod ynghylch y cynigion canlynol:

- Cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yn ETS y DU o fis Ionawr 2023; caniatáu ymweliadau safle rhithiol ar gyfer dilyswyr hedfanaeth mewn sefyllfaoedd lle nad oes amgylchiadau difrifol, eithriadol ac annarogan; a diweddaru'r cyfeiriadau yn neddfwriaeth ETS y DU at feini prawf y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy (RTFO) sy'n berthnasol i gymhwystra tanwydd hedfanaeth cynaliadwy.
- Diwygio'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch[3] yn sgil blwyddyn COVID 2020.
- Diwygiadau gweithredol i ETS y DU sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 9 yr ymgynghoriad, gan gynnwys mân ddiwygiadau trwyddedu, monitro, adrodd a dilysu (PMRV) a chyfle i Ysbytai ac Allyrwyr Bach ailymuno â'r prif gynllun.

---

1 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1067126/developing-the-uk-ets-consultation-welsh.pdf

2 Sylwer nad oedd yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i gynhyrchwyr trydan Gogledd Iwerddon sy'n cymryd rhan yn ETS yr UE yn rhinwedd Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon.

3 Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842, gan ei fod yn rhan o gyfraith ddomestig

Cawsom gyfanswm o 90 o ymatebion i'r cynigion a drafodir yn yr ymateb hwn gan y llywodraeth. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhai o feysydd Hedfanaeth, Cemegol, Trafnidiaeth, Gweithgynhyrchu, Ariannol, Ynni, Bwyd a Diod, a sectorau Dur, yn ogystal â Chymdeithasau Masnach eraill, Awdurdodau Lleol, Ymgyngoriaethau, Melinau Trafod a chyrff anllywodraethol, a sectorau eraill.

Mae atodiad dadansoddol wedi'i gynnwys yn rhan o'r ymateb hwn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddadansoddiadau a ddefnyddiwyd i gefnogi safbwyntiau terfynol ynghylch hediadau'r DU i'r Swistir, a diwygiadau Newidiadau Lefel Gweithgarwch COVID a nodir yn y ddogfen hon.

# Ymateb y Llywodraeth

## Hediadau o'r DU i'r Swistir

Ym Mhennod 5 Datblygu ETS y DU, nodwyd cynigion ar gyfer datblygu ETS y DU a oedd yn berthnasol i'r sector hedfanaeth yn benodol. Mae’r ymateb isod yn canolbwyntio ar gynigion i gynnwys hediadau o’r DU i’r Swistir yn ETS y DU o fis Ionawr 2023.

### Crynodeb o'r cynnig

Roedd ymateb y llywodraeth i’r ymgynghoriad ar Ddyfodol Prisio Carbon y DU, a gyhoeddwyd yn 2020, yn ymrwymo i gynnwys hediadau sy’n gadael y DU ac yn cyrraedd y Swistir o fewn cwmpas ETS y DU, pe bai modd dod i gytundeb â'r Swistir.[4]

Wrth ddatblygu'r ymgynghoriad ar ETS y DU, cynigiwyd y dylid cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir o fewn ETS y DU o fis Ionawr 2023. Cynigiwyd hefyd:

- **Na** fyddem o ganlyniad i hynny yn addasu cap ETS y DU i'w weithredu yn 2023, ac ystyried mai cymharol fach fyddai'r swm o allyriadau ychwanegol a fyddai'n cael eu dal. Byddwn yn rhoi cyfrif am gynnwys hediadau i'r Swistir mewn cynigion i gysoni cap ETS y DU â thaflwybr sero net.
- Byddem yn ceisio cymhwyso'r un rheolau ar gyfer dyraniadau am ddim i hediadau o'r DU i'r Swistir ag unrhyw weithgarwch hedfan arall o fewn ETS y DU, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau o'r adolygiad o ddyraniadau am ddim ar gyfer hedfanaeth.

**Cwestiynau**

67) Ydych chi’n cytuno y dylid cynnwys hediadau o’r DU i’r Swistir yn ETS y DU o fis Ionawr 2023? (Y/N) Ymhelaethwch ar eich ateb a rhoi tystiolaeth lle bo modd.

68) Ydych chi'n cytuno y dylid cymhwyso'r un rheolau ar gyfer dyraniadau am ddim, a'r un canlyniadau o'r adolygiad i'r gweithgarwch hedfan hwn â gweddill y sector hedfanaeth yn ETS y DU? (Y/N) Ymhelaethwch ar eich ateb a rhoi tystiolaeth lle bo modd.

69) Ydych chi'n cytuno na ddylem addasu cap cyfredol ETS y DU i roi cyfrif am gynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir. (Y/N) Ymhelaethwch ar eich ateb a rhoi tystiolaeth lle bo modd.

[4] https://www.gov.uk/government/consultations/the-future-of-uk-carbon-pricing

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 24 o ymatebion i Gwestiwn 67, yr oedd 22 (91.7%) ohonynt yn cytuno â'r cynnig i ehangu cwmpas ETS y DU i ddal allyriadau o hediadau'n gadael y DU ac yn cyrraedd y Swistir o 2023 ymlaen. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno fod yr hediadau hyn wedi'u dal eisoes pan gymerodd y DU ran yn ETS yr UE, ac y byddai eu cynnwys yn ETS y DU yn golygu llenwi bwlch a gafodd ei greu yng nghwmpas yr ETS ers i'r DU ymadael â'r UE. O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno, dadleuodd chwech hefyd y dylai'r Awdurdod geisio ehangu cwmpas ETS y DU ar gyfer hedfanaeth i gynnwys bob hediad sy'n gadael y DU. Roedd y ddau ymateb a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau mai'r unig gynllun prisio carbon y dylid ei ddefnyddio ar gyfer hediadau o'r DU i'r Swistir yw'r Cynllun Gwrthbwyso a Lleihau Carbon ar gyfer Hedfan Rhyngwladol (CORSIA)

Cafwyd 20 o ymatebion i Gwestiwn 68 ac roedd 19 (95%) yn cytuno â'r cynnig. O’r rhai a oedd yn cytuno, dadleuodd chwe ymatebwr y dylai hediadau sy’n cael eu dal gan ETS y DU gael eu trin yn gyfartal ac felly y dylid cymhwyso’r un rheolau ar gyfer dyraniadau am ddim i hediadau o’r DU i’r Swistir. Roedd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno, yn anghytuno ar y sail ei fod yn gwrthwynebu'r cynnig cyffredinol i gynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yn ETS y DU.

Cafwyd 23 o ymatebion i Gwestiwn 69 ac roedd 12 (52.2%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd y rhai a gefnogai'r cynnig yn dweud mai ychydig o allyriadau a gafwyd o hediadau o'r DU i'r Swistir yn 2019, ac roedd 5 ymatebwr yn dadlau na fyddai cynnwys yr hediadau hyn yn ETS y DU yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Nid oedd 11 o ymatebwyr yn cytuno, gyda rhai'n dadlau y dylid cyflwyno cynnydd cyfatebol i'r cap cyffredinol ar ôl unrhyw weithred i ehangu cwmpas y cynllun.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Mae Awdurdod ETS y DU wedi penderfynu ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys hediadau sy'n gadael maes awyr yn y DU ac yn cyrraedd maes awyr yn y Swistir (hediadau o'r DU i'r Swistir). Bydd deddfwriaeth yn cael ei gosod i ehangu cwmpas gweithgarwch hedfan ETS y DU i gynnwys hediadau o Brydain (Cymru, Lloegr a'r Alban) i'r Swistir, i ddod i rym o 1 Ionawr 2023. Bydd deddfwriaeth i ehangu cwmpas gweithgarwch hedfan ETS y DU i gynnwys hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir yn cael ei gosod cyn gynted ag y bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gallu bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Swistir wedi diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol i sicrhau bod hediadau o feysydd awyr yn y Swistir i feysydd awyr yn y DU wedi'u cynnwys yn ETS y Swistir o 2023.

O 1 Ionawr 2023, bydd yn ofynnol i weithredwyr cerbydau awyr fonitro ac adrodd ar eu hallyriadau hedfan ar gyfer hediadau o Brydain i'r Swistir, ac ildio swm cyfatebol o Lwfansau ETS y DU. Bydd rhwymedigaethau i fonitro ac adrodd ar allyriadau hedfan ar deithiau hedfan o Ogledd Iwerddon i’r Swistir, ac i ildio swm cyfatebol o lwfansau ETS y DU, yn berthnasol ar ôl i’r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei chyflwyno. Bydd Awdurdod ETS y DU yn cyfathrebu â

gweithredwyr cerbydau awyr i sicrhau eu bod yn gwybod pryd fydd y rhwymedigaethau hyn yn dod i rym.

Yn unol â’r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn, bydd ETS y DU yn adolygu'r holl hawliau presennol i ddyraniadau hedfan am ddim, ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i roi cyfrif am unrhyw weithgarwch hedfan hanesyddol yn gysylltiedig â hediadau o Brydain i'r Swistir, ac yn diweddaru'r tabl dyraniadau hedfan am ddim ar gyfer gweddill cyfnod dyrannu 2021-2025.[5] Mae'n bosibl y gofynnir i weithredwyr cerbydau awyr ddarparu gwybodaeth bellach i'r rheoleiddiwr perthnasol i hwyluso'r ailgyfrifiad hwn.

Bydd gweithredwr awyrennau na wnaeth gais am hawl i ddyraniad rhad ac am ddim o ETS y DU erbyn y dyddiad cau, sef 31 Mawrth 2021, ond y mae ei weithgarwch hedfan hanesyddol yn cynnwys hediadau o Brydain i’r Swistir, yn cael y cyfle i wneud cais am hawl i ddyraniad am ddim yn seiliedig ar yr hediadau hynny o Brydain i'r Swistir yn unig. Bydd y broses ymgeisio a’r gofynion ar y cyfan yr un peth â'r rhai yn yr ymarfer dyraniadau am ddim cychwynnol, a’r dyddiad cau ar gyfer y cais hwn fydd 31 Mawrth 2023.

Bydd unrhyw hawl i ddyraniad am ddim yn gysylltiedig â gweithgarwch hedfan hanesyddol wedi'i seilio ar hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir wedi'i chyfrifo ar sail pro rata, i adlewyrchu'r cyfnod sy'n weddill yn y flwyddyn gynllun, yn dibynnu pryd y daw'r ddeddfwriaeth a osodir yng Ngogledd Iwerddon i rym.

Ni fydd y cap yn cael ei ddiwygio yn 2023 i roi cyfrif am gynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir, gan mai swm cymharol fach o allyriadau ychwanegol fydd yn cael eu dal. Yn 2019, roedd hediadau o’r DU i’r Swistir yn cyfateb i 0.28MTCO2 a fyddai’n cyfateb i lai na 0.2% o gap ETS y DU ar gyfer blwyddyn cynllun 2023. Ar ben hynny, mae Awdurdod ETS y DU wedi ymgynghori ar alinio cap ETS y DU â thaflwybr sero net. Credwn y byddai’n anghyson cynyddu’r cap, a deddfu ar gyfer hyn, i roi cyfrif am y swm bach hwn yn 2023 a ninnau eisoes yn bwriadu deddfu i alinio’r cap â thaflwybr cyson â sero net yn 2024. Bydd Awdurdod ETS y DU yn rhoi cyfrif am gynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yn y cynigion i alinio cap ETS y DU â thaflwybr sero net.

O ran y sylwadau ehangach a wnaed ynghylch cymhwyso prisiau carbon i hediadau rhyngwladol, mae'r rhan fwyaf o hediadau rhyngwladol sy'n gadael y DU wedi'u cynnwys yn CORSIA, ac mae'r DU yn parhau i chwarae rhan arweiniol yng ngwaith y Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol (ICAO) er mwyn negodi camau gweithredu uchelgeisiol ar raddfa fyd-eang i ymdrin ag allyriadau hedfan, gan gynnwys gwarchod a chryfhau CORSIA.

Drwy gynnwys hediadau o’r DU i’r Swistir yn ETS y DU, bydd yr Awdurdod yn llenwi'r bwlch yng nghwmpas yr ETS a gafodd ei greu wedi i'r DU ymadael ag ETS yr UE, ac yn cyflawni ein hymrwymiad yn ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Ddyfodol Prisio Carbon yn y DU, i wneud hynny cyn gynted ag y deuir i gytundeb â'r Swistir. Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ystyried sut y bydd CORSIA ac ETS y DU yn rhyngweithio â'i gilydd o ran hediadau sydd o

[5] Mae Awdurdod ETS y DU ar hyn o bryd yn adolygu polisi dyraniadau am ddim ar gyfer hedfanaeth. Bydd yr hawl i ddyraniadau am ddim hedfanaeth yn y dyfodol yn ddarostyngedig i ganlyniad yr adolygiad hwn, a disgwylir i'r newidiadau ddod i rym o 2024.

fewn cwmpas y naill gynllun a'r llall, a bydd yn ymgynghori eto ymhen amser. Bydd hediadau o'r DU i'r Swistir yn cael eu cynnwys yn rhan o'r un ystyriaethau.

Mae’r ymatebion i gwestiwn olaf yr adran hon yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ac fe'u trafodir yn rhan o ymateb ehangach y llywodraeth i'r ymgynghoriad.

# Ymweliadau Safle Rhithiol ar gyfer Hedfanaeth

## Crynodeb o'r cynnig

Ym Mhennod 5 hefyd cynigiwyd caniatáu i ddilysydd gweithgarwch hedfan gynnal ymweliad safle rhithiol, ar yr amod bod y rheoleiddiwr yn cymeradwyo cais gan weithredwr cerbydau hedfan i ddilysydd wneud hynny. Cyflwynwyd darpariaeth i alluogi ymweliadau safle rhithiol mewn amgylchiadau rhithiol, eithriadol ac annarogan yn ystod pandemig COVID-19. Byddai'r cynnig hwn yn galluogi dilyswyr gweithgarwch hedfan i gynnal ymweliadau safle rhithiol mewn amgylchiadau arferol, ar yr amod y ceir cymeradwyaeth y rheoleiddiwr, i leihau'r baich gweinyddol, y costau a'r allyriadau yn sgil teithiau gan weithredwyr cerbydau awyr a dilyswyr.

**Cwestiwn**

73) A ddylem ganiatáu i ddilyswyr gweithgarwch hedfan gynnal ymweliadau safle o bell os oes asesiad risg priodol wedi'i gynnal ac unrhyw amodau rhagofalus, fel cymeradwyaeth y Rheoleiddiwr, wedi'u bodloni. (Dylech/Na ddylech) Esboniwch eich ateb.

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 16 o ymatebion i’r cwestiwn ac roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig i alluogi dilyswyr hedfanaeth i gynnal ymweliadau safle rhithiol. Cytunodd yr ymatebwyr y byddai gwneud hynny’n lleihau costau ac yn arbed allyriadau yn sgil y teithiau y byddai eu hangen i gynnal ymweliadau safle yn y fan a'r lle, gan gyfeirio at yr ymweliadau safle rhithiol a gwblhawyd yn llwyddiannus yn ystod pandemig COVID-19.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Bydd Awdurdod ETS y DU yn deddfu i alluogi ymweliadau safle rhithiol ar gyfer dilyswyr gweithgarwch hedfan mewn amgylchiadau arferol, ar yr amod y ceir cymeradwyaeth y rheoleiddiwr ar gyfer hynny.

Bydd yn rhaid i'r gweithredwr cerbydau awyr gael cymeradwyaeth ar gyfer ymweliad safle rhithiol cyn cyflwyno ei adroddiad allyriadau blynyddol.

# Meini Prawf Cynaliadwyedd ar gyfer Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

## Crynodeb o'r cynnig

Roedd Pennod 5 hefyd yn ystyried yr ymdriniaeth â thanwydd hedfan cynaliadwy (SAF) o dan ETS y DU yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae defnyddio SAF yn allweddol er mwyn sicrhau hedfanaeth sero net, ac mae hi felly'n bwysig i ddarpariaethau SAF o dan ETS y DU gefnogi'r defnydd o'r dechnoleg hon yn effeithiol, ochr yn ochr ag ymyraethau eraill gan y llywodraeth a'r diwydiant. Ar hyn o bryd, os bydd SAF sy'n bodloni'r meini prawf cynaliadwyedd a osodir yn y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy (RTFO) yn cael ei brynu a'i ddanfon i system llwytho tanwydd cerbyd awyr neu faes awyr gan weithredwr maes awyr yn y flwyddyn gynllun, y ffactor allyriadau syn berthnasol i'r tanwydd hwnnw yn ETS y DU yw sero, ac efallai y bydd gweithredwr y cerbyd awyr yn gallu hawlio gostyngiad cysylltiedig mewn allyriadau. Bydd hyn yn lleihau nifer lwfansau'r DU y mae'n rhaid i weithredwr y cerbyd awyr eu hildio.

Yn rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom gynnig y dylai'r SAF sy'n gymwys o dan ETS y DU barhau i fod yn gyson â'r meini prawf cynaliadwyedd a osodir yn yr RTFO. Rydym yn cadarnhau ein safbwynt ynghylch y cynnig hwn nawr, a byddwn yn gweithredu diwygiad technegol cyfatebol i ddeddfwriaeth ETS y DU ar gyfer blwyddyn 2023 y cynllun.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn rhoi ystyriaeth ehangach i'r ymdriniaeth hirdymor ag SAF yn ETS y DU wrth i'r polisi SAF ddatblygu ymhellach ac wrth i dechnoleg fanteisio ar y tanwydd. Mae ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â rhoi cyfrif yn briodol am allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) o SAF, gostwng rhwymedigaethau ETS y DU yn barhaus ar gyfer y defnydd o SAF a  rhyngweithio â'r mandad SAF yn cael eu hystyried yn ofalus yn sail i ddatblygu polisi ymhellach. Byddwn yn ymateb i'r cwestiynau hyn yn rhan o ymateb ehangach y llywodraeth i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn**

61) Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i sicrhau bod rheolau ETS y DU yn parhau i fod yn gyson â'r meini prawf cynaliadwyedd diweddaraf ar gyfer SAF. Byddai hyn yn cynnwys adlewyrchu'r diwygiadau diweddaraf i feini prawf cynaliadwyedd yr RTFO. (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 39 o ymatebion a oedd yn ymateb yn uniongyrchol i Gwestiwn 61, ac roedd 38 (97.4%) yn cytuno â'r cynnig y dylai'r SAF a gaiff ei hawlio o dan ETS y DU barhau i fod yn gyson â'r meini prawf cynaliadwyedd diweddaraf ar gyfer SAF. Ymhlith y themâu o'r ymatebion hyn yr oedd yr angen i gadw cysondeb a sicrhau eglurder rhwng cynlluniau wrth i'r farchnad SAF ddatblygu'n gyflym. Nododd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod yr effeithiau ar yr hinsawdd yn sgil defnyddio SAF yn cael eu hadrodd yn fanwl gywir. Roedd rhai o gyfranogwyr ETS y DU o'r sectorau sefydlog hefyd yn dadlau y dylai'r meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer

SAF annog y defnydd o $CO_2$ a ddelir gan weithfeydd sefydlog fel porthiant i gynhyrchu SAF. Yn fwy cyffredinol, nododd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau cysondeb â mandad SAF arfaethedig y DU.

Nid oedd un ymatebwr yn cytuno â'r cynnig, a dadleuodd y dylai pob SAF gael ei ystyried yn garbon niwtral ar gyfer gweithredwyr cerbydau awyr o dan ETS y DU, ac y dylid gosod cyfrifoldeb dros allyriadau yng nghylch oes yr SAF ar ysgwyddau cynhyrchydd y tanwydd.

Roedd dau ymatebwr arall na wnaeth ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn, ond a fynegodd rywfaint o bryder ynghylch gwyro oddi wrth y meini prawf cynaliadwyedd byd-eang ar gyfer SAF, gan dynnu sylw at fudd sicrhau cysondeb â rheolau rhyngwladol.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Byddwn yn sicrhau bod polisi SAF ETS y DU yn parhau i fod yn gyson â meini prawf cynaliadwyedd yr RTFO tra bo'r cynllun hwnnw'n gwobrwyo cyflenwadau SAF yn y DU, nes cyflwyno mandad yn 2025. Bryd hynny, rydym yn disgwyl i ETS y DU gysoni â meini prawf cynaliadwyedd y mandad SAF cyn gynted ag y daw i rym. Cafodd yr ymagwedd a gynigir at feini prawf cynaliadwyedd y mandad SAF ei nodi yn yr ymgynghoriad ar y mandad SAF yn 2021[6] ac yn ymateb y llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022[7]. Drwy alinio hyn â pholisi a safonau cynaliadwyedd SAF y DU yn y dyfodol, gallwn sicrhau bod y SAF a gyflenwir i'r DU ac a hawlir o dan ETS y DU yn wirioneddol gynaliadwy, ac y gellir hawlio hyn hefyd o dan yr RTFO, neu fandad SAF yn y dyfodol pan fo'n weithredol. Heb gysoni fel hyn, os bydd tanwydd sy'n cydymffurfio â safonau cynaliadwyedd ehangach ond nad yw'n bodloni safonau'r RTFO yn cael ei gyflenwi i'r DU, gallai ETS y DU, mewn sefyllfa baradocsaidd, fod yn annog cyflenwi SAF nad yw'n cyfrannu at dargedau'r RTFO, ac na fyddai cyflenwyr tanwydd yn gallu hawlio tystysgrif ar ei gyfer o dan y cynllun. Byddai hyn hefyd yn creu baich ariannol ychwanegol ar gyflenwyr tanwydd, gan fod tanwydd adnewyddadwy a gyflenwir o dan yr RTFO nad yw'n cydymffurfio â meini prawf cynaliadwyedd y cynllun yn creu rhwymedigaeth - rhagwelir ymagwedd debyg ar gyfer mandad SAF pan fydd yn weithredol. Fodd bynnag, caiff safonau cynaliadwyedd yr RTFO a'r darpar fandad SAF eu diweddaru'n gyson ac maent yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau cynaliadwyedd byd-eang, ymhlith ffactorau eraill. Byddwn yn adolygu unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol a'u perthnasedd i weithredwyr cerbydau awyr o dan ETS y DU.

Er mwyn sicrhau bod ETS y DU yn parhau i fod yn gyson â'r RTFO, bydd yr Awdurdod yn gwneud diwygiad bach i ddeddfwriaeth ETS y DU ar gyfer 2023. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth ETS y DU yn cyfeirio at y meini prawf cynaliadwyedd a nodir yn Atodlen y Gorchymyn RTFO.[8] Ym mis Rhagfyr 2021, diwygiwyd y Gorchymyn RTFO i ledaenu'r meini prawf cynaliadwyedd ar draws tair Atodlen, heb ddiwygio sylwedd y meini prawf.[9] Mae hyn

[6] https://www.gov.uk/government/consultations/mandating-the-use-of-sustainable-aviation-fuels-in-the-uk
[7] https://www.gov.uk/government/consultations/mandating-the-use-of-sustainable-aviation-fuels-in-the-uk#:~:text=We%20will%20introduce%20a%20sustainable,reduction%20scheme%20with%20tradeable%20certificates
[8] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2007/3072/contents/made
[9] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2021/9780348228854/article/13

wedi creu amwysedd yn neddfwriaeth ETS y DU. Bydd Awdurdod ETS y DU yn diwygio deddfwriaeth ETS y DU i gyfeirio at yr Atodlenni i'r Gorchymyn RTFO ac yn egluro y caiff SAF ei asesu yn erbyn y meini prawf cynaliadwyedd perthnasol ar gyfer y flwyddyn pan gafodd ei brynu.

Fel y nodwyd, roedd un ymatebwr yn anghytuno â'r cynnig ac yn dadlau y dylid ystyried pob SAF yn garbon niwtral ar gyfer gweithredwyr cerbydau awyr. Mae'n bwysig nodi bod SAF sy'n bodloni meini prawf cynaliadwyedd yr RTFO yn cael ei drin ar hyn o bryd yn ETS y DU fel tanwydd â ffactor allyriadau sero, ac na fydd y diwygiadau deddfwriaethol cynlluniedig a grybwyllwyd uchod yn newid yr ymagwedd hon. Yn ehangach, fodd bynnag, ystyriai'r ymgynghoriad yr ymdriniaeth ag SAF yn y dyfodol yn ETS y DU, gan gynnwys sut y gellir rhoi cyfrif am allyriadau cylch oes SAF mewn modd priodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori hyn sy'n weddill yn yr adran SAF yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ac fe'u trafodir yn rhan o ymateb ehangach y llywodraeth i'r ymgynghoriad.

# Diwygio'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch yn sgil blwyddyn 2020 COVID.

Ym Mhennod 2 "Datblygu ETS y DU" nodwyd cynigion i ddatblygu ETS y DU yn gysylltiedig â'r polisi dyraniadau am ddim ac, yn benodol, diwygiadau posibl i Newidiadau Lefel Gweithgarwch i roi cyfrif am effeithiau pandemig COVID-19.

## Crynodeb o'r cynnig

Ym Mhennod 2, gwnaethom gynnig naill ai:

- Parhau i weithredu’r Rheoliad cyfredol ar gyfer proses Newidiadau Lefel Gweithgarwch 2022 neu;
- Ddiwygio'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch i hepgor blwyddyn 2020 y cynllun, yr effeithiwyd arni gan COVID, wrth gyfrifo'r newid yn lefel gweithgarwch 2022, ar gyfer y gweithredwyr hynny a all ddangos i'r Awdurdod anghysondeb sylweddol rhwng gostyngiadau mewn allbwn ac allyriadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Gwnaethom amlinellu y gallai'r Awdurdod ystyried yr opsiwn hwn pe bai ymatebwyr yn darparu tystiolaeth gadarn a allai fod yn berthnasol ar draws holl sectorau ETS y DU. Gwnaethom hefyd amlygu y gallai'r opsiwn hwn achosi oedi i'r broses Newidiadau Lefel Gwasanaeth yn 2022.

**Cwestiwn**

13) A ddylid cadw at y rheolau presennol ar gyfer proses Newidiadau Lefelau Gweithgarwch 2022? (Dylid/Na ddylid) Esboniwch eich ateb.

14) Pa ddata cywir, cadarn a dilysadwy y gallech eu darparu i'r Awdurdod i dystio bod yr anghysondeb rhwng gostyngiadau mewn allbwn ac allyriadau wedi cael ei achosi'n benodol gan bandemig COVID-19?

15) Sut y dylid penderfynu beth sy'n cynrychioli "anghysondebau sylweddol rhwng gostyngiadau mewn allbwn ac allyriadau"? Pa ddata y dylid eu defnyddio wrth ddod i'r penderfyniad hwn?

16) A ddylid gosod trothwyon penodol rhwng y gostyngiad mewn lefelau allbwn a'r gostyngiad mewn lefelau allyriadau er mwyn i weithredwyr fod yn gymwys i hepgor blwyddyn 2020 Covid o gyfrifiad Newidiadau Lefel Gweithgarwch 2022? (Dylid/Na ddylid) Esboniwch eich ateb.

17) Os caiff y flwyddyn 2020 ei hepgor, pa flynyddoedd y dylid eu hystyried wrth gyfrifo Newidiadau i Lefelau Gweithgarwch yn 2022? Esboniwch eich ateb.

## Crynodeb o'r ymatebion

O'r 39 o ymatebwyr, ymatebodd 24 (62%) drwy ddweud na ddylid cadw'r rheolau cyfredol ar gyfer proses Newidiadau Lefel Gweithgarwch 2022. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at natur eithriadol pandemig Covid-19 a'r effeithiau sylweddol y mae wedi'u cael ar batrymau cynhyrchu a lefelau gweithgarwch. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi profi anghysondebau rhwng eu gostyngiadau mewn allyriadau a gostyngiadau mewn lefelau gweithgarwch oherwydd y pandemig a'u proses ddiwydiannol. Tynnodd sawl ymatebwr hefyd sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi rhoi ystyriaeth i natur eithriadol pandemig Covid-19 mewn cynlluniau eraill, ee, mewn Cytundebau Newid Hinsawdd (CCA) a Diwydiannau Ynni-ddwys (EII).

O'r 39 o ymatebwyr, ymatebodd 15 (38%) drwy ddweud y dylid cadw'r rheolau cyfredol ar gyfer proses Newidiadau Lefel Gweithgarwch 2022. Dywedodd sawl ymatebwr nad oedd Covid-19 wedi effeithio rhyw lawer ar eu gweithrediad, ac nad oeddent yn disgwyl i'r rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch gael ei sbarduno. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai cyflwyno newid ar fyr-rybudd i Newidiadau Lefel Gweithgarwch 2022 yn cael effaith negyddol ar sicrwydd y farchnad ymhlith cyfranogwyr eraill. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith y bydd y rheolau presennol yn gweithio yn ôl y bwriad, gan mai pwrpas Newidiadau i Lefel Gweithgarwch yw adlewyrchu gweithgarwch gweithredwr, ac yn y flwyddyn lle cafwyd llai o weithgarwch byddai'r gweithredwr wedi derbyn lefel uwch o lwfansau am ddim nag y dylai fod wedi'u derbyn, heblaw am y gostyngiad hwn.

O ran data y gellid eu darparu i'r Awdurdod yn dystiolaeth bod yr anghysondeb rhwng gostyngiadau mewn gweithgarwch ac allyriadau wedi'i achosi gan bandemig Covid-19, awgrymodd sawl ymatebwr y gellid darparu data gweithgarwch ac allyriadau wedi'u dilysu a'u cymharu â lefelau lle na chafwyd effaith Covid. Nododd sawl ymatebwr y byddai'n anodd profi'r gydberthynas yn ymarferol, ac y byddai angen dod i gasgliad ynghylch hynny o'r data. O ran sut y dylid pennu "anghysondebau sylweddol rhwng gostyngiadau mewn allbwn ac allyriadau", roedd sawl ymateb yn debyg i'r cwestiwn blaenorol, ac yn amlygu'r gwahaniaethau rhwng data 2020 a data cyn Covid. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid cysylltu'r "allbwn" yn uniongyrchol â mesuriad sy'n rhoi adlewyrchiad manwl gywir o weithgarwch gweithredwr. Nododd un ymatebwr hefyd y byddai hynny'n benodol i bob gweithredwr a'i weithgarwch perthynol.

O’r 13 o ymatebwyr, roedd 6 (46%) yn cytuno y dylid gosod trothwyon penodol rhwng y gostyngiad mewn lefelau allbwn a’r gostyngiad mewn lefelau allyriadau er mwyn i weithredwyr fod yn gymwys i hepgor blwyddyn 2020 Covid wrth gyfrifo Newidiadau Lefelau Gweithgarwch 2022. Dywedodd sawl ymatebwr y dylai'r holl weithredwyr a brofodd ostyngiad o fwy na 15% mewn gweithgarwch, ac a oedd felly'n bodloni'r sbardun ar gyfer ALC, fod yn gymwys i hepgor blwyddyn 2020 wrth gyfrifo lefelau gweithgarwch yn ALC 2022. Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith y dylid gosod trothwy i leihau'r baich gweinyddol ar Awdurdod ETS y DU, a chyfyngu ar oedi i broses ALC 2022.

O'r 13 o ymatebwyr, roedd 7 (54%) yn anghytuno y dylid gosod trothwyon. Yn lle gosod trothwy, dywedodd amryw o ymatebwyr y dylid penderfynu ar gymhwystra fesul achos.

O'r 23 o ymatebwyr, dywedodd 9 (39%) y dylid rhoi ystyriaeth i 2019 a 2021 wrth gyfrifo ALC yn 2022, o hepgor 2020, gan y byddai'r blynyddoedd hyn yn rhoi cynrychiolaeth well o lefelau gweithgarwch arferol. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys defnyddio cyfartaledd o 2018, 2019 a 2021, defnyddio blwyddyn 2021 yn unig, defnyddio blwyddyn 2019 yn unig, a defnyddio lefelau gweithgarwch hanesyddol a ddefnyddiwyd yn wreiddiol i gyfrifo dyraniadau am ddim. Tynnodd rhai ymatebwyr hefyd sylw at y ffaith bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar eu gweithgarwch yn 2021, gan ofyn am gael hepgor y flwyddyn honno hefyd o gyfrifiadau ALC.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd, mae'r Awdurdod yn cynnig diwygio'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch i hepgor blwyddyn 2020 COVID wrth gyfrifo newid yn lefelau gweithgarwch 2022, ar gyfer y gweithredwyr hynny a all ddangos i'r Awdurdod anghysondeb sylweddol rhwng gostyngiadau mewn allbwn ac allyriadau ym mlwyddyn 2020 y cynllun a achoswyd gan bandemig COVID-19. Er mwyn pennu a oes anghysondeb sylweddol, bydd lefel trothwy o 15% rhwng y gostyngiad mewn gweithgarwch a’r gostyngiad mewn allyriadau ym mlwyddyn 2020 y cynllun yn cael ei gymhwyso.

Rhoddir dyraniadau am ddim i ddiwydiannau i liniaru eu risg o ddadleoli carbon. Yn ôl y Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch, nodir os bydd lefelau gweithgarwch cyfartalog diweddar (a gyfrifwyd o lefelau gweithgarwch y 2 flynedd flaenorol) yn dangos cynnydd neu ostyngiad o fwy na 15% mewn gweithgarwch o gymharu â lefelau blaenorol, ailgyfrifir

dyraniadau lwfans am ddim y weithfa. I weithredwyr lle cafwyd gostyngiad i'w hallyriadau a oedd yn gymesur â'u lefelau gweithgarwch, bydd y polisi ALC yn gweithio'n union fel y bwriadwyd: byddant wedi derbyn mwy o ddyraniadau am ddim yn 2020 nag y dylent fod wedi gwneud i gyd-fynd â'r lefel is o allyriadau. Bydd ALC felly'n unioni hyn drwy leihau'r dyraniadau lwfans am ddim ym mlynyddoedd dilynol y cynllun. Roedd sawl ymatebwr yn gallu darparu tystiolaeth o ostyngiad mewn lefelau gweithgarwch heb ostyngiad cydberthynol mewn allyriadau yn sgil pandemig COVID-19, gan greu anghysondeb sylweddol rhwng y gostyngiad mewn allyriadau a gweithgarwch. Byddai hyn yn golygu gostyngiad i'w dyraniadau am ddim yn dilyn proses ALC 2022, gan gynyddu eu hamlygiad i'r pris carbon, gan arwain at y posibilrwydd o gynyddu eu risg o ddadleoli carbon. Nid yw hyn yn cyd-fynd â bwriad y polisi dyraniadau am ddim, sef lliniaru'r risg o ddadleoli carbon, ac nid yw'n gyson â bwriad polisi ALC i sicrhau bod newidiadau i ddyraniadau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch.

Nid yw'r Awdurdod ond yn cynnig diwygio Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch i hepgor blwyddyn 2020 COVID wrth gyfrifo newid i lefelau gweithgarwch yn 2022, ar gyfer y gweithredwyr hynny a all ddangos i'r Awdurdod anghysondeb sylweddol rhwng gostyngiadau mewn allbwn ac allyriadau cydberthynol sy'n deillio o bandemig COVID-19. Gan hynny, bydd yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno tystiolaeth o'u lefelau gweithgarwch yn ogystal â'r allyriadau cydberthynol i ddangos i'w Rheoleiddiwr perthynol eu bod yn bodloni lefel y trothwy, a bod yr anghysondeb rhwng gostyngiadau mewn allyriadau a gweithgarwch wedi'i achosi gan bandemig COVID-19. Efallai y bydd yn ofynnol i weithredwyr ddarparu data allyriadau wedi'u dilysu ar gyfer is-weithfeydd yn rhan o'r dystiolaeth honno.

Mae'r Awdurdod yn diffinio trothwy fel y gwahaniaeth rhwng y gostyngiad canrannol mewn gweithgarwch a'r gostyngiad canrannol mewn allyriadau cydberthynol ar gyfer blwyddyn 2020 y cynllun. Mae achosion lle mae'r gwahaniaeth yn sylweddol yn amlygu meysydd lle gallai'r broses Newid Lefelau Gweithgarwch heb fod yn gweithio'n unol â'r bwriad. Mae'r Awdurdod wedi dewis y dull trothwy gan nad yw'n sector-benodol, ac mae'n galluogi ymdriniaeth fethodolegol â newidiadau i ALC.

Mae'r Awdurdod yn cynnig diffinio anghysondebau sylweddol drwy asesu lefel trothwy a fyddai'n cipio gweithfeydd a brofodd lefel uchel o anghysondeb, sef 15%, rhwng y gostyngiad mewn gweithgarwch a'r gostyngiad mewn allyriadau cydberthynol. Bydd y lefel hon yn cipio gweithfeydd a welodd y gostyngiad mwyaf mewn gweithgarwch nad oedd yn gyson â'u gostyngiad mewn lefelau allyriadau, ac felly'r gostyngiad a gafod y mwyaf o effaith. Ni fydd yn cipio gweithfeydd a chanddynt lefel is o anghysondeb, ac felly'r gweithfeydd hynny lle dylai'r polisi ALC fod yn gweithio'n unol â'r bwriad.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfyngu ar oedi i ALC er mwyn rhoi sicrwydd i weithredwyr ynghylch eu lwfansau am ddim. Bydd canolbwyntio ar y gweithfeydd yr effeithiwyd arnynt fwyaf, â throthwy o 15%, yn sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o oedi wrth brosesu ALC 2022.

Ar ben hynny, mae proses yr ALC fel arfer yn cael ei sbarduno pan geir gwahaniaeth o 15% mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â newid mewn allyriadau. Er nad yw'r gwerth hwn wedi'i

gysylltu'n uniongyrchol ag anghysondebau rhwng allyriadau a gweithgarwch, cydnabyddir bod 15% yn fesur rhesymol o'r goddefiant a geir yn y ddeddfwriaeth ALC gyfredol.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gael dull methodolegol nad yw'n gysylltiedig â sector penodol o ymdrin â newidiadau i ddyraniadau am ddim neu ALC er mwyn rhoi sicrwydd i gyfranogwyr. Rydym yn cynnig y newid hwn gan fod COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail, a mawr mewn rhai achosion, ar lefelau gweithgarwch rhai gweithfeydd, ond heb effeithio ar eu hallyriadau, gan olygu nad oedd proses ALC yn gweithio'n unol â'r bwriad.

Disgwylir i'r cynnig hwn gipio nifer cymharol fach o'r rhanddeiliaid yr effeithiwyd arnynt fwyaf, a bydd felly'n lleihau hyd yr eithaf y risg o unrhyw oedi wrth i reoleiddwyr brosesu ALCs 2022. Byddwn yn gwneud hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith cyn dosbarthu dyraniadau am ddim 2023 erbyn 28 Chwefror 2023.

Os caiff blwyddyn 2020 ei hepgor i weithredwyr cymwys, ar ôl ystyried yr ymatebion a gawsom, byddwn yn defnyddio 2019 a 2021 wrth gyfrifo ALCs 2022 i weithredwyr sy'n gymwys am ryddhad. Mae'r rhain yn flynyddoedd sy'n adlewyrchu gweithgarwch diweddar ac allyriadau cysylltiedig sydd agosaf at 2020, sy'n gyson â bwriad y polisi ALC i sicrhau bod newidiadau i ddyraniadau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch.

Gofynnodd 5 o ymatebwyr yn yr adran hon hefyd a ellid gwneud newidiadau i ALC 2021, gan fod ALC 2021 hefyd yn defnyddio blwyddyn 2020 i gyfrifo lefelau gweithgarwch. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ALCs 2021 eisoes wedi'u cyfrifo, ond yn nodi bod y mater wedi'i godi, a bydd yn ymateb yn ymateb ehangach y llywodraeth i'r ymgynghoriad.

# Diwygiadau gweithredol a gafodd eu cynnwys ym Mhennod 9 "Datblygu ETS y DU".

Mae Pennod 9 "Datblygu ETS y DU" yn pennu'r diwygiadau gweithredol a gynigir i ETS y DU, er mwyn mynd i'r afael â nifer o broblemau gweithredol a thechnegol a nodwyd wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth ar gyfer y cynllun. Byddwn yn deddfu ar gyfer y diwygiadau i Bennod 9 a nodir isod cyn blwyddyn 2023 y cynllun er mwyn cefnogi effeithiolrwydd gweithredol parhaus ETS y DU. Bydd y diwygiadau sy'n weddill ac sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 9 yn cael eu hystyried gyda hyn.

## Prif arbedion ynni

### Crynodeb o'r cynnig

Gwnaethom gynnig diwygio deddfwriaeth ETS y DU mewn perthynas â newydd-ddyfodiaid i ETS y DU a elwir yn gynhyrchwyr trydan, sy'n dymuno gwneud cais am ddyraniadau lwfans am ddim ar y sail eu bod yn cynhyrchu gwres mesuradwy drwy gynhyrchiant tra effeithlon. Cynigiom na chaiff y gweithredwyr hyn wneud cais am ddyraniadau lwfans am ddim o'r gronfa newydd-ddyfodiaid nes iddynt allu darparu blwyddyn galendr lawn o ddata ar lefelau gweithgarwch. Ar hyn o bryd, gellir prif arbedion ynni newydd-ddyfodiad o gyfnod byr iawn o

amser, gan greu risg na fyddai'r data hyn yn creu darlun manwl gywir o weithgarwch y gweithredwr.

**Cwestiwn**

176) Yn achos newydd-ddyfodiaid a elwir yn gynhyrchwyr rydan, ac sy'n dymuno gwneud cais am ddyraniadau lwfans am ddim ar y sail eu bod yn cynhyrchu gwres mesuradwy drwy gydgynhyrchiant tra effeithlon, ydych chi'n cytuno na ddylid caniatáu iddynt wneud cais am ddyraniadau am ddim nes i'r gweithredwr allu darparu blwyddyn galendr lawn o ddata ar lefelau gweithgarwch? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

### Crynodeb o'r ymatebion

O 11 o ymatebwyr, roedd 6 (55%) yn cytuno â'r cynnig. Nododd un ymatebwr y byddai'r cynnig hwn yn osgoi'r posibilrwydd o ddyrannu gormod o lwfansau, a nododd amryw y byddai gweithredu'r cynnig yn deg.

Roedd 5 ymatebwr (45%) yn anghytuno â'r cynnig, gydag amryw'n nodi y byddai'r oedi cyn derbyn lwfansau am ddim yn cynyddu costau yn ystod y flwyddyn gyntaf o gynnwys y gweithredwr yn y cynllun.

### Ymateb Awdurdod ETS y DU

Bydd Awdurdod ETS y DU yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ETS y DU. Ni fydd newydd-ddyfodiaid a elwir yn gynhyrchwyr trydan, ac sy'n dymuno gwneud cais am ddyraniadau lwfans am ddim ar y sail eu bod yn cynhyrchu gwres mesuradwy drwy gydgynhyrchiant tra effeithlon, ond yn gallu gwneud hynny ar ôl iddynt ddarparu blwyddyn galendr lawn o ddata ar lefelau gweithgarwch. Bydd hyn yn sicrhau bod y prif arbedion ynni a bennir ar gyfer newydd-ddyfodiad yn gynrychioliadol o weithgarwch y gweithredwr.

## Cyfran hyblyg

### Crynodeb o'r cynnig

Gwnaethom gynnig diwygio deddfwriaeth ETS y DU i ganiatáu i'r Awdurdod greu cyfanswm o lwfansau o'r gyfran hyblyg mewn blwyddyn gynllun, yn ychwanegol at y cap blynyddol. Cyfran hyblyg yw cyfran o hyd at 3% o'r cap, sef 40,984,970 o lwfansau dros gyfnod 2021-2030, a ddelir mewn cronfa ac y gellir eu tynnu i lawr drwy'r mecanwaith cyfyngu ar gostau neu y gellir eu defnyddio i liniaru cymhwyso ffactor cywiro traws-sector, o'i weithredu yn ystod blwyddyn gynllun. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl i'r Awdurdod greu'r cyfanswm o lwfansau o'r gyfran hyblyg mewn blwyddyn gynllun, gan y byddai hynny'n mynd heibio'r cap ar swm y lwfansau y gellir eu creu ym mhob blwyddyn gynllun, fel y nodir yn erthygl 20 o Orchymyn Cynllun

Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. Gallai hyn atal y gyfran hyblyg rhag cyflawni ei bwriad i liniaru sbarduno ffactor cywiro traws-sector, o'i weithredu yn ystod blwyddyn gynllun.

**Cwestiwn**

177) Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan yr Awdurdod y gallu i greu cyfanswm o lwfansau o'r gyfran hyblyg mewn blwyddyn gynllun, yn ychwanegol at y cap blynyddol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

## Crynodeb o'r ymatebion

O 21 o ymatebwyr, roedd 20 (95%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno y dylai'r Awdurdod allu creu cyfanswm o lwfansau o'r gyfran hyblyg mewn blwyddyn gynllun yn ychwanegol at y cap blynyddol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei redeg yn llyfn.

Roedd un ymatebwr yn anghytuno â'r cynnig gan ddweud na ddylid mynd y tu hwnt i'r cap blynyddol, hyd yn oed os oedd hynny i liniaru'r defnydd o ffactor cywiro traws-sector.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Bydd Awdurdod ETS y DU yn gweithredu'r newidiadau a gynigir i ddeddfwriaeth ETS y DU er mwyn caniatáu i'r Awdurdod greu'r cyfanswm o lwfansau o'r gyfran hyblyg mewn blwyddyn gynllun, yn ychwanegol at y cap blynyddol. Bydd hyn yn osgoi sefyllfa lle gallai'r gyfran hyblyg gael ei rhwystro rhag cyflawni ei bwriad i liniaru sbarduno ffactor cywiro traws-sector.

# Trwyddedu, monitro, adrodd a dilysu (PMRV)

## Diffiniad o ddilysydd

### Crynodeb o'r cynnig

Cynigiwyd dileu'r ymadrodd 'neu endid cyfreithiol arall' o'r diffiniad isod.

*'ystyr ‘dilysydd’ yw unigolyn cyfreithiol, neu endid cyfreithiol arall, sy'n cyflawni gweithgareddau dilysu'n unol â'r Rheoliad hwn, ac a achredwyd drwy'r achrediad cenedlaethol yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 765/2008 a'r Rheoliad hwn ar adeg cyhoeddi adroddiad dilysu;*

*(3a) ystyr “corff achredu cenedlaethol” yw corff achredu cenedlaethol y Deyrnas Unedig a benodir yn unol ag Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) 765/2008(a);*

Mae hyn yn cydnabod y safbwynt a nodwyd yn ein hymateb yn 2020 i ymgynghoriad 'Dyfodol Prisio Carbon yn y DU', sef y byddem yn parhau i gymhwyso deddfwriaeth ETS yr UE ar gyfer monitro, adrodd a dilysu, ac eithrio mewn meysydd penodol lle byddem yn cyflwyno newidiadau.

**Cwestiwn**

179) Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y modd y caiff dilysydd ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth ac, yn benodol, ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r ymadrodd 'neu endid cyfreithiol arall'?

### Crynodeb o'r ymatebion

O 10 o ymatebwyr, roedd 4 (40%) yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno bod y term yn ddiangen, ac y dylid ei ddileu o'r ddeddfwriaeth.

Roedd 6 o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Nododd ymatebwyr a anghytunai â'r cynigion ddyhead i gadw cysondeb â deddfwriaeth yr UE.

### Ymateb Awdurdod ETS y DU

Mae'r un diwygiad wedi cael ei gyflwyno i ddeddfwriaeth ETS y DU, felly bydd cysondeb yn cael ei sicrhau o gyflwyno'r newid. Gan mai dyma oedd yr unig bryder a fynegwyd, mae Awdurdod ETS y DU wedi penderfynu dileu'r ymadrodd diangen 'neu endid cyfreithiol arall' o'r diffiniad o ddilysydd.

## Trosglwyddo trwyddedau, uno a hollti

### Trin trosglwyddiadau ac uniadau llawn[10]

### Crynodeb o'r cynnig

Ar hyn o bryd, os bydd trwydded yn cael ei throsglwyddo'n llawn i weithredwr â gweithfeydd ar yr un safle, mae'r ddeddfwriaeth yn esbonio sut y caiff dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y blynyddoedd ar ôl trosglwyddo'r drwydded eu cyfuno ac, os oes angen, eu haddasu'n unol â'r broses newid lefelau gweithgarwch. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn esbonio'n glir a ddylid cyfuno'r dyraniadau lwfans am ddim, eu rhoi a'u haddasu yn y flwyddyn pan fydd y drwydded yn cael ei throsglwyddo, ai peidio, ac os felly, sut y dylai hynny ddigwydd.

Gwnaethom gynnig trin dyraniadau'n wahanol ar sail dyddiad trosglwyddo'r drwydded.

1 ) Os bydd y dyddiad pan ddaw trosglwyddiad y drwydded i rym cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 1 Ionawr a 30 Mawrth), bydd y dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y flwyddyn gynllun honno (a blynyddoedd dilynol) yn cael eu cyfuno. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y dyraniadau (ar gyfer y ddwy weithfa yr effeithir arnynt

[10] Fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(17) o'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim; ystyr 'uno' yw cyfuno dwy neu fwy o weithfeydd sydd eisoes yn dal trwyddedau nwyon tŷ gwydr ar yr amod eu bod wedi'u cysylltu'n dechnegol, yn gweithredu ar yr un safle, ac y bydd y weithfa derfynol wedi'i chynnwys o dan un drwydded nwyon tŷ gwydr.

gan yr uno) ar gyfer y flwyddyn gynllun pan ddigwyddodd y trosglwyddiad yn cael eu dal yn ôl nes bo'r dyraniadau wedi'u cyfuno a'u haddasu'n unol â'r broses newid lefel gweithgarwch.

2) Os bydd y dyddiad pan ddaw trosglwyddiad y drwydded i rym ar neu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 31 Mawrth a 31 Rhagfyr), bydd y dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y flwyddyn drosglwyddo eisoes wedi'u rhoi i'r gweithredwr sy'n trosglwyddo, a dylai adroddiad lefel gweithgarwch fod wedi cael ei gyflwyno gan y naill weithredwr a'r llall ar gyfer y gwahanol weithfeydd. Dylid addasu'r dyraniad ar gyfer pob gweithfa yn ystod y flwyddyn drosglwyddo ar wahân yn unol â'r broses newid lefel gweithgarwch.

**Cwestiynau**

179) Ydych chi'n cytuno, yn achos trosglwyddo trwydded yn llawn (wrth uno), y dylid trin dyraniadau ar gyfer y flwyddyn gynllun pan geir y trosglwyddiad yn wahanol ar sail dyddiad dod i rym y trosglwyddiad. (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

180) Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir gennym? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

181) A oes dull arall nad yw wedi'i ystyried?

## Crynodeb o'r ymatebion

O'r 16 o ymatebwyr i gwestiwn 179, cytunai 12 (75%) y dylid trin dyraniadau ar gyfer y flwyddyn gynllun pan geir y trosglwyddiad yn wahanol ar sail dyddiad dod i rym y trosglwyddiad, wrth drosglwyddo trwydded yn llawn. Roedd 4 (25%) o ymatebwyr yn anghytuno.

O’r 16 a ymatebodd i gwestiwn 180, roedd 10 (63%) yn cytuno â’r dull gweithredu a gynigiwyd. Dywedodd amryw o ymatebwyr ei bod hi'n fuddiol cadarnhau sut roedd y broses yn gweithio fel hyn. Roedd un ymatebwr yn cytuno â'r dull o ymdrin â throsglwyddiadau a fyddai'n digwydd rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr, ond dywedodd y dylai'r gweithredwr gwreiddiol fod yn gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad lefel gweithgarwch yn achos trosglwyddiadau a fyddai'n digwydd rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth, i osgoi baich gweinyddol ar y gweithredwr newydd.

Roedd 6 (37.5)%) o ymatebwyr yn anghytuno â'r dull gweithredu a gynigiwyd. Dywedodd un ymatebwr y gallai dal lwfansau'n ôl ar gyfer blynyddoedd nesaf y cynllun greu goblygiadau ariannol i'r safleoedd. Fodd bynnag, roedd cynnig yr ymgynghoriad yn awgrymu mai dyraniadau ar gyfer y flwyddyn gynllun lle'r oedd y trosglwyddiad yn dod i rym yn unig a fyddai'n cael eu dal yn ôl nes i'r dyraniadau gael eu cyfuno a'u haddasu drwy'r broses newid lefelau gweithgarwch, a fyddai'n digwydd yn ystod y flwyddyn. Nododd un ymatebwr y byddai trin dyraniadau'n wahanol yn creu cymhlethdod ychwanegol yn y broses hon.

O ran dulliau eraill, awgrymodd un ymatebwr y dylai'r holl drosglwyddiadau ddefnyddio'r dull a gyflwynwyd ar gyfer trosglwyddo trwyddedau rhwng 31 Mawrth - 31 Rhagfyr, er cysondeb. Awgrymodd ymatebwr arall y dylai'r gweithredwr gwreiddiol gyflwyno'r adroddiad lefel

gweithgarwch ar ran y gweithredwr newydd ar gyfer trosglwyddiadau rhwng 1 Ionawr a 30 Mawrth.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Bydd Awdurdod ETS y DU yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ETS y DU. Pan fydd trwydded yn cael ei throsglwyddo'n llawn i weithredwr a chanddo weithfa ar yr un safle, bydd dyraniadau'n cael eu trin yn wahanol ar sail dyddiad trosglwyddo'r drwydded.

1 ) Os bydd y dyddiad pan ddaw trosglwyddiad y drwydded i rym cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 1 Ionawr a 30 Mawrth), bydd y dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y flwyddyn gynllun honno (a blynyddoedd dilynol) yn cael eu cyfuno. Bydd y dyraniadau (ar gyfer y ddwy weithfa yr effeithir arnynt gan yr uno) ar gyfer y flwyddyn gynllun pan ddigwyddodd y trosglwyddiad yn cael eu dal yn ôl nes bo'r dyraniadau wedi'u cyfuno a'u haddasu'n unol â'r broses newid lefel gweithgarwch. Bydd y dyraniad cyfun yn cael ei bennu a'i addasu fel pe bai'r uno wedi digwydd ar ddechrau'r flwyddyn gynllun honno. Bydd yn rhaid i'r gweithredwr newydd gyflwyno adroddiad lefel gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn gynllun ddwy flynedd cyn y flwyddyn sy'n cynnwys dyddiad dod i rym y trosglwyddiad. Er enghraifft, os mai dyddiad dod i rym y trosglwyddiad yw 1 Mawrth 2022, bydd yn rhaid i'r gweithredwr gyflwyno adroddiad ar ei lefelau gweithgarwch yn 2020, fel pe bai'r uno wedi digwydd ar ddechrau 2020. Bydd hyn yn sicrhau y gellir addasu'r dyraniad cyfun yn unol 'r broses newid lefel gweithgarwch.

2) Os bydd y dyddiad pan ddaw trosglwyddiad y drwydded i rym ar neu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 31 Mawrth a 31 Rhagfyr), bydd y dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y flwyddyn drosglwyddo eisoes wedi'u rhoi i'r gweithredwr sy'n trosglwyddo, a dylai adroddiad lefel gweithgarwch fod wedi cael ei gyflwyno gan y naill weithredwr a'r llall ar gyfer y gwahanol weithfeydd. Dylid addasu'r dyraniad ar gyfer pob gweithfa yn ystod y flwyddyn drosglwyddo ar wahân yn unol â'r broses newid lefel gweithgarwch. Os cafwyd dyraniad gormodol i'r weithfa a drosglwyddwyd, dylai'r gweithredwr sy'n trosglwyddo ddychwelyd y lwfansau hynny o gyfrif dal gweithredwr (OHA) y weithfa a drosglwyddwyd. Bydd y cyfarwyddyd gan y Rheoleiddiwr i Weinyddwr y Gofrestrfa gau'r OHA sy'n ymwneud â'r weithfa a drosglwyddir yn cael ei ohirio nes i'r dyraniad gael ei addasu ac i'r gweithredwr sy'n trosglwyddo ddychwelyd unrhyw ddyraniadau gormodol. Caiff y dyraniad ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn dyddiad dod i rym y trosglwyddiad ei gyfuno.

## Ymdriniaeth â throsglwyddiad rhannol a hollti dyraniad[11]

## Crynodeb o'r cynnig

Ar hyn o bryd, lle ceir trosglwyddiad rhannol, mae'r ddeddfwriaeth yn esbonio sut y caiff dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y blynyddoedd ar ôl trosglwyddo'r drwydded yn rhannol eu hollti ac, os oes angen, eu haddasu'n unol â'r broses newid lefelau gweithgarwch. Nid yw'r

[11] Fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(18) o'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim; ystyr 'hollti' yw rhannu gweithfa yn ddwy neu fwy o weithfeydd sydd wedi'u cynnwys o dan drwyddedau nwyon tŷ gwydr ar wahân ac yn cael eu rhedeg gan weithredwyr gwahanol.

ddeddfwriaeth yn esbonio'n glir a ddylid hollti, rhoi ac addasu dyraniadau lwfans am ddim yn y flwyddyn pan fydd y trosglwyddiad rhannol yn digwydd, ac os felly, sut y dylai hynny ddigwydd.

Gwnaethom gynnig trin dyraniadau'n wahanol ar sail dyddiad y trosglwyddiad rhannol.

1) Os yw dyddiad dod i rym y trosglwyddiad rhannol cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 1 Ionawr a 30 Mawrth), bydd y dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y flwyddyn gynllun honno (a blynyddoedd dilynol) yn cael eu hollti. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y dyraniad i'r weithfa wreiddiol ar gyfer y flwyddyn gynllun pan ddigwyddodd y trosglwyddiad yn cael ei ddal yn ôl nes bo'r dyraniad wedi'i hollti a'i addasu'n unol â'r broses newid lefel gweithgarwch.

2) Os yw'r dyddiad y daw'r trosglwyddiad i rym ar neu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 31 Mawrth a 31 Rhagfyr), byddai'r lwfansau am ddim ar gyfer y flwyddyn pan fyddai'r trosglwyddiad rhannol yn digwydd wedi cael eu dyrannu i'r OHA yn gysylltiedig â'r weithfa wreiddiol, a dylai adroddiad lefel gweithgarwch fod wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y weithfa honno. Bydd y gweithredwr sy'n trosglwyddo yn gyfrifol am ddychwelyd unrhyw lwfans a or-ddyrannwyd yn gysylltiedig â'r flwyddyn pan ddigwyddodd y trosglwyddiad rhannol.

**Cwestiynau**

182) Ydych chi'n cytuno, yn achos trosglwyddo trwydded yn rhannol, y dylid trin y dyraniadau ar gyfer y flwyddyn gynllun pan geir y trosglwyddiad rhannol yn wahanol ar sail dyddiad dod i rym y trosglwyddiad rhannol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

183) Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir gennym? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ateb.

184) A oes dull arall nad yw wedi'i ystyried?

## Crynodeb o'r ymatebion

O'r 11 a ymatebodd i gwestiwn 182, roedd 6 (55%) yn cytuno, yn achos trosglwyddo trwydded yn rhannol, y dylid trin dyraniadau ar gyfer y flwyddyn gynllun pan geir y trosglwyddiad rhannol yn wahanol ar sail dyddiad dod i rym y trosglwyddiad rhannol. Roedd 5 (45%) o ymatebwyr yn anghytuno.

O'r 13 a ymatebodd i gwestiwn 183, roedd 6 (46%) yn cytuno â'r dull gweithredu a gynigiwyd. Nododd amryw o ymatebwyr y byddai hyn yn ffordd resymol o ymdrin â'r sefyllfaoedd dan sylw.

Roedd 7 (54%) yn anghytuno â'r dull a gynigiwyd. Tynnodd un ymatebwr at y ffaith y gallai dal lwfansau am ddim yn ôl greu goblygiadau ariannol i'r gweithredwr. Nododd un ymatebwr y byddai trin dyraniadau'n wahanol yn creu cymhlethdod ychwanegol yn y broses hon.

O ran dulliau eraill, awgrymodd un ymatebwr y dylai'r holl drosglwyddiadau rhannol ddefnyddio'r dull a gyflwynwyd ar gyfer trosglwyddiadau rhannol rhwng 31 Mawrth a 31

Rhagfyr, er cysondeb. Awgrymodd ymatebwr arall y dylai'r gweithredwr gwreiddiol gyflwyno'r adroddiad lefel gweithgarwch ar ran y gweithredwr newydd yn achos trosglwyddiadau rhannol rhwng 1 Ionawr a 30 Mawrth.

### Ymateb Awdurdod ETS y DU

Bydd Awdurdod ETS y DU yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ETS y DU. Lle bo trwydded yn cael ei throsglwyddo'n rhannol, bydd dyraniadau'n cael eu trin yn wahanol ar sail dyddiad y trosglwyddiad rhannol.

1) Os yw dyddiad dod i rym y trosglwyddiad rhannol cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 1 Ionawr a 30 Mawrth), bydd y dyraniadau lwfans am ddim ar gyfer y flwyddyn gynllun honno (a blynyddoedd dilynol) yn cael eu hollti. Bydd y dyraniad i'r weithfa wreiddiol ar gyfer y flwyddyn gynllun pan ddigwyddodd y trosglwyddiad yn cael ei ddal yn ôl nes bo'r dyraniad wedi'i hollti a'i addasu'n unol â'r broses newid lefel gweithgarwch. Bydd ymraniad y lwfans a ddyrannir yn cael ei bennu a'i addasu fel pe bai'r hollti wedi digwydd ar ddechrau'r flwyddyn gynllun honno. Bydd yn rhaid i'r ddau weithredwr gyflwyno adroddiad lefel gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn gynllun ddwy flynedd cyn y dyddiad pan ddaw'r trosglwyddiad i rym. Er enghraifft, os mai dyddiad dod i rym y trosglwyddiad rhannol yw 1 Mawrth 2022, bydd yn rhaid i'r ddau weithredwr gyflwyno adroddiad ar eu lefelau gweithgarwch yn 2020 fel pe bai'r hollti wedi digwydd ar ddechrau 2020. Bydd hyn yn sicrhau y gellir addasu'r lwfansau sydd wedi'u dyrannu yn unol â'r broses newid lefel gweithgarwch.

2) Os yw’r dyddiad y daw’r trosglwyddiad i rym ar neu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y lefel gweithgarwch mewn blwyddyn gynllun (hy, rhwng 31 Mawrth a 31 Rhagfyr), byddai'r lwfansau am ddim ar gyfer y flwyddyn pan fyddai'r trosglwyddiad rhannol yn digwydd wedi cael eu dyrannu i'r OHA yn gysylltiedig â'r weithfa wreiddiol, a dylai adroddiad lefel gweithgarwch fod wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y weithfa honno. Bydd y gweithredwr sy'n trosglwyddo yn gyfrifol am ddychwelyd unrhyw lwfans a or-ddyrannwyd yn gysylltiedig â'r flwyddyn pan ddigwyddodd y trosglwyddiad rhannol. Caiff y dyraniad ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn dyddiad dod i rym y trosglwyddiad ei hollti.

## Potensial cynhesu byd-eang

### Crynodeb o'r cynnig

Ym Mhennod 9, gwnaethom gynnig diwygio deddfwriaeth ETS y DU i gymhwyso gwerthoedd GWP wedi'u diweddaru a nodir yn Adroddiad Pumed Asesiad (AR5) yr IPCC, fel y cytunwyd yn COP24 a COP25.

**Cwestiwn**

C185) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylem gymhwyso'r AR5 heb werthoedd adborth i ddibenion ETS y DU.

### Crynodeb o'r ymatebion

O 12 o ymatebwyr, roedd 11 (91.7%) yn cytuno â'r cynnig hwn. O'r rhai a oedd yn cytuno, cyfeiriodd amryw o ymatebwyr at yr angen i ETS y DU ddefnyddio'r safonau mwyaf perthnasol i adrodd ar allyriadau er mwyn cadw cysondeb ar draws adroddiadau allyriadau byd-eang. Roedd rhai pryderon ynghylch a fyddai'r AR5 heb werthoedd adborth yn adlewyrchu effaith wirioneddol allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Gofynnodd yr un ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig am ymgynghoriad pellach ar effeithiau'r gwerthoedd GWP ar y fynegai prisiau carbon.

### Ymateb Awdurdod ETS y DU

Fel y cynigiwyd, byddwn yn cymhwyso'r AR5 heb werthoedd adborth, fel y cytunwyd yn COP26, i ddibenion ETS y DU.

## Diweddariadau sydd eu hangen i EN ISO 14065

### Crynodeb o'r cynnig

Ym Mhennod 9, gwnaethom gynnig diwygio deddfwriaeth ETS y DU i adlewyrchu'r fersiwn wedi'i diweddaru  o ISO 14065 (EN ISO 14065:2020) sy'n esbonio egwyddorion a gofynion Cyffredinol cyrff sy'n dilysu ac yn gwirio gwybodaeth amgylcheddol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod safonau'r DU yn parhau i fod yn gyson â safonau rhyngwladol. Mae'r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn cyfeirio at ISO 14065:2013.

**Cwestiwn**

186) Ydych chi'n cytuno y dylem ddiwygio'r Gorchymyn i adlewyrchu EN ISO 14065:2020?

### Crynodeb o'r ymatebion

*O 12 o ymatebwyr, roedd 10 (83.3%) yn cytuno â'r cynnig hwn. Dywedodd un ymatebwr y byddai cymhwyso'r safon hon yn sicrhau ymagwedd unffurf ar draws y system.*

*Ni roddodd y ddau ymateb a anghytunodd â'r cynnig unrhyw reswm.*

### Ymateb Awdurdod ETS y DU

Byddwn yn diwygio deddfwriaeth ETS y DU i adlewyrchu'r fersiwn ddiweddaraf ISO 14065 (EN ISO 14065:2020), er mwyn sicrhau y bydd safonau'r DU yn parhau i fod yn gyson â safonau rhyngwladol. Mae'r Fforwm Achredu Rhyngwladol wedi pennu dyddiad terfyn i drosglwyddo'r holl Gyrff Dilysu ar 30 Mehefin 2024, felly byddwn yn gosod y dyddiad terfyn yn unol â hynny.

## Cynnig i HSE ailymuno â'r cynllun

### Crynodeb o'r cynnig

Cynigiwyd creu ffenestr untro rhwng mis Ionawr a mis mai 2023 i gyfranogwyr yng nghynllun Allyrwyr Bach ac Ysbytai (HSE) yn y cyfnod dyrannu cyntaf i ailymuno â phrif gynllun ETS y DU o 2024 ymlaen. Mae hyn yn cydnabod bod gweithredwyr wedi penderfynu bod yn HSE wrth ddisgwyl cyfres o reolau sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd (rheolau Cam IV ETS yr UE yn hytrach na rheolau ETS y DU). Gwnaethom hefyd gynnig y byddai gweithredwyr sy'n ailymuno â'r cynllun o'u gwirfodd yn gymwys i wneud cais am ddyraniad am ddim, ar yr amod eu bod yn gwneud cais am ddyraniad am ddim a aseswyd yn ddilys o dan Gam IV ETS yr UE. Byddai'r weithdrefn hon yr un peth â'r weithdrefn a amlinellwyd yn Atodlen 8A i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr.

**Cwestiynau**

188) Ydych chi'n cytuno y dylid cynnig cyfle i Allyrwyr Bach ac Ysbytai ailymuno â phrif ETS y DU?

189) Ydych chi'n cytuno y dylent fod yn gymwys i wneud cais am Ddyraniad Am Ddim ar yr amod eu bod wedi gwneud cais am Ddyraniad am Ddim o dan Gam IV ETS yr UE?

### Crynodeb o'r ymatebion

O'r 18 o ymatebwyr i Gwestiwn 188, roedd pawb yn cytuno â'r cynnig i gynnig ffenestr i ailymuno â phrif gynllun ETS y DU o'r cynllun HSE.

Awgrymodd saith ymatebwr y dylid hefyd rhoi cyfle i weithredwyr sydd wedi gostwng eu hallyriadau'n is na 25,000 tCO2 y flwyddyn i ymuno â chynllun HSE, neu 2,500 tCO2 y flwyddyn i ymuno â chynllun Allyrwyr Bach Iawn (USE).

Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith y dylid caniatáu i weithfeydd newydd sy'n bodloni meini prawf HSE ymuno â'r cynllun HSE ar unwaith, yn hytrach nag ymuno â phrif gynllun ETS y DU i ddechrau.

Cawsom 15 ymateb i Gwestiwn 189. Roedd 13 o ymatebion yn cytuno â'r cynnig, gydag un ymatebwr yn dweud y dylai'r dewis i ymgeisio am Ddyraniad am Ddim hefyd fod ar gael i rai nad ydynt ond wedi cyflwyno datganiad NIMs rhannol.

## Ymateb Awdurdod ETS y DU

Byddwn yn deddfu eleni i gyflwyno ffenestr untro rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 i HSEs yn y cyfnod dyrannu cyntaf ailymuno â phrif gynllun ETS y DU o 2024 ymlaen. Bydd gweithredwyr sy’n ailymuno â’r cynllun yn wirfoddol yn gymwys i wneud cais am ddyraniad am ddim ar yr amod eu bod wedi gwneud cais yr aseswyd ei fod yn ddilys ar gyfer dyraniad am ddim o dan Gam IV ETS yr UE. Bydd y weithdrefn hon yr un fath â’r un a amlinellir yn Atodlen 8A y Gorchymyn.

Rydym yn cydnabod awgrymiadau ymatebwyr i roi cyfle i weithredwyr sydd wedi gostwng eu hallyriadau i lai na 25,000 neu 2,500 tCO2 y flwyddyn ymuno â chynlluniau HSE neu USE. Rydym yn cydnabod bod llawer o bartïon yn teimlo y byddai hyn yn welliant, felly byddwn yn ystyried y cynnig ac o bosib yn ymgynghori arno yn y dyfodol. Nodwn hefyd yr awgrym i ganiatáu i weithfeydd newydd sydd o dan 25,000 neu 2,500 tCO2 y flwyddyn ymuno â'r cynllun HSE neu USE. Mae hyn hefyd yn opsiwn y byddwn yn ei ystyried, ac o bosib yn ymgynghori arno ymhen amser.

# Diwygiadau gweithredol pellach i'w cynnwys mewn deddfwriaeth gynlluniedig.

Yn ogystal â’r safbwyntiau polisi a amlinellir yn yr ymateb hwn, rydym yn bwriadu cynnwys amryw o ddiwygiadau pellach mewn deddfwriaeth gynlluniedig a fydd yn dod i rym cyn blwyddyn gynllun 2023. Ni chafodd y diwygiadau hyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad “Datblygu ETS y DU" naill ai gan mai bach iawn fydd eu heffaith ar weithredwyr, am eu bod yn cywiro gwallau blaenorol yn y ddeddfwriaeth, neu am eu bod o natur weinyddol yn bennaf.

Amlinellir y diwygiadau cynlluniedig hyn yn y tabl isod er gwybodaeth:

| Diwygiad | Crynodeb | Natur y diwygiad |
|---|---|---|
| **Disgrifiadau o weithfa yn y Cynllun Methodoleg Monitro (MMP) a'r cynllun monitro** | Diwygio deddfwriaeth i gael gwared o'r gofyniad i gynnwys disgrifiad o weithfa yn yr MMP a'r cynllun monitro er mwyn osgoi dyblygu. Mae disgrifiad o'r weithfa eisoes yn ofynnol er mwyn cael trwydded. | Mân newid gweinyddol i osgoi dyblygu. |
| **Dileu Erthygl 39(3) o'r Rheoliad Monitro ac Adrodd (MRR)** | Dileu'r ddarpariaeth o'r ddeddfwriaeth, gan fod y sicrwydd ynghylch tarddiad y cyfeirir ato yn y ddarpariaeth yn ymwneud â chynhyrchu trydan, ac nid yw'n berthnasol wrth fonitro ac adrodd ar allyriadau blynyddol; (a) mae cynhyrchu trydan yn gysylltiedig â monitro ac adrodd ar ddata dyrannu lwfansau wedi'i gynnwys yn y rheoliad | Diwygio deddfwriaeth heb unrhyw effaith ar weithredwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | dyraniadau am ddim a (b) nid oes gan y DU gynllun sicrhau tarddiad ar gyfer bio-nwy a gaiff ei gyflenwi i'r grid nwy cenedlaethol. Nid yw'r cynllun cymorth nwy gwyrdd yn rhoi sicrwydd ynghylch tarddiad. | |
| **Hysbysu ynghylch peidio addasu dyraniad am ddim** | Diwygio'r ddeddfwriaeth fel bo'n ofynnol i'r rheoleiddiwr hysbysu'r Awdurdod os penderfynir peidio addasu dyraniad am ddim. O dan Erthygl 6 y Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch, efallai y bydd y rheoleiddiwr yn penderfynu peidio addasu dyraniad os nad yw'r newid mewn lefel gweithgarwch ond wedi digwydd oherwydd newid i effeithlonrwydd ynni. Gan ei fod yn penderfynu gwneud dim, nid oes unrhyw ofynion ar hyn o bryd (a) i'r rheoleiddiwr hysbysu Awdurdod ETS y DU o dan Erthygl 6a, (b) i awdurdod ETS y DU gymeradwyo'r penderfyniad (neu fel arall i fynnu bod y dyraniad yn cael ei addasu) nac (c) i'r rheoleiddiwr hysbysu'r gweithredwr ynghylch y penderfyniad terfynol. | Diwygio deddfwriaeth heb ryw lawer o effaith ar weithredwyr. Ymgynghorwyd â rheoleiddwyr ynghylch y newid a gynigir. |
| **Addasu ymdriniaeth ETS y DU â'r arbedion allyriadau GHG diofyn ar gyfer braster anifeiliaid (tallow)** | Yn diwygio deddfwriaeth fel bod gweithredwyr sy'n defnyddio braster anifeiliaid Categori 1 a 2 i gynhyrchu ynni gwres ar-safle yn cael caniatâd i ddefnyddio'r meini prawf diofyn ar gyfer arbedion nwyon tŷ gwydr a nodir yn y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (RED) 2009. | Mân newid gweinyddol sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r cynllun eisoes yn gweithio'n ymarferol, a'r hyn sydd wedi'i nodi yng nghanllawiau'r cynllun. |
| **Adroddiadau ar lefel gweithgarwch a therfynu** | Diwygio paragraffau 11 ac 12 Atodlen 6 y Gorchymyn i gyfleu'r canlynol yn glir, pan fydd gweithredwr yn ildio ei drwydded neu pan fydd trwydded gweithredwr yn cael ei ddirymu:<br><br>• Bod y drwydded yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno adroddiad lefel gweithgarwch ar lefelau gweithgarwch y flwyddyn cyn terfynu, hyd yn oed os yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad hwnnw'n digwydd ar ôl y 'dyddiad terfynu'. | Diwygiad eglurhaol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Nad yw'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno adroddiad lefel gweithgarwch ar lefelau gweithgarwch yn y flwyddyn derfynu ei hun. | |
| **Dileu amod trwydded yn gysylltiedig â biohylifau** | Dileu paragraff 4(2)(c) Atodlen 6, sydd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i drwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr gynnwys 'amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithred fodloni'r rheoleiddiwr, os bydd ffactor allyriadau sero yn cael ei adrodd yn gysylltiedig â'r defnydd o fiohylifau, bod y meini prawf cynaliadwyedd....wedi'u bodloni.'<br><br>Nid oes angen amod yn gysylltiedig â'r drwydded yn benodol ar gyfer biohylifau gan fod y sefyllfa bellach yn glir yn y Rheoliad Monitro ac Adrodd. Mae'n rhaid i weithredwyr gynnwys manylion biohylifau a'r meini prawf cymhwystra yn eu hadroddiad allyriadau blynyddol er mwyn adrodd ffactor allyriadau sero. Bydd dilyswyr yn asesu a fodlonwyd y meini prawf cynaliadwyedd, wrth ddilysu'r wybodaeth arall yn yr adroddiad.  Os na fodlonir y meini prawf, ni cheir defnyddio ffactor allyriadau sero.<br><br>Mae hyn yn golygu yr ymdrinnir â'r asesiad biohylifau yn yr un modd ag agweddau eraill ar adroddiad allyriadau blynyddol, ac nad oes angen cael amod ar wahân ar gyfer hynny'n gysylltiedig â'r drwydded. | Mân newid gweinyddol |
| **Sgwrio (wrea)** | Diwygio'r Rheoliad Monitro ac Adrodd, i adlewyrchu gwerthoedd cywir ar gyfer gwerth caloriffig net, y ffactor trosi a'r ffactor ocsideiddio ar gyfer sgwrio (wrea). | Cywiro gwall. |
| **Cywiro Atodlen 8a** | Cywiro croesgyfeiriad anghywir at ddarpariaeth y Rheoliad Dyraniadau Am Ddim. | Cywiro gwall. |

# Y Camau Nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen i basio deddfwriaeth i ddod â'r safbwyntiau a amlinellir yn y ddogfen hon i rym o fis Ionawr 2023. Disgwylir y daw'r ddeddfwriaeth hon i rym erbyn mis Rhagfyr 2022.

Byddwn yn cyhoeddi ymateb llawn y Llywodraeth i ymgynghoriad mis Mawrth ar ddatblygu ETS y DU ymhen amser, cyn cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer newidiadau pellach, gan gynnwys diwygio cap ETS y DU, cyn blwyddyn gynllun 2024.

# Atodiad Dadansoddol

## Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith dadansoddi a gyflawnwyd i asesu effeithiau'r penderfyniadau a nodwyd yn Ymateb cynnar y Llywodraeth i ymgynghoriad "Datblygu ETS y DU". Ymdrinnir â dwy adran:  Adran 1: cynnwys Hediadau o'r DU i'r Swistir yng nghwmpas y cynllun, ac Adran 4, diwygio Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch yn sgil effaith COVID yn 2020.

Ni thrafodir adrannau eraill yr ymateb cynnar hwn gan y Llywodraeth yn yr atodiad hwn, gan mai diwygiadau technegol yr ydynt heb ryw lawer o effaith uniongyrchol i'w hasesu.

# Hediadau o'r DU i'r Swistir

## Prif effeithiau

Fel y nodir yn Ymateb y Llywodraeth, nid yw hediadau rhwng y DU a'r Swistir wedi'u cynnwys yn ETS y DU nac yn ETS y Swistir, gan greu bwlch yng nghwmpas yr ETS a oedd gynt wedi'i gynnwys o dan gytundeb cyswllt yr UE-Y Swistir a chyfranogiad y DU yn ETS yr UE. Bydd cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yn ETS y DU yn llenwi'r bwlch hwn.

Dyma brif effeithiau hyn:

- **Effeithiau o ran cost**: bydd sawl hediad nad oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol bellach yn wynebu rhwymedigaethau i ildio lwfansau'r DU (UKAs).
- **Effaith datgarboneiddio**: bydd y cynnydd hwn mewn costau yn creu cymhelliant i ddatgarboneiddio'r hediadau hyn.
- **Effeithiau ar bris carbon**: gallai ehangu cwmpas y cynllun effeithio ar bris UKAs. Fodd bynnag, disgwylir mai bach fydd yr effaith hon, gan mai nifer cymharol fach o allyriadau ychwanegol sydd dan sylw.

Yn yr adran nesaf ceir crynodeb o'r gwaith dadansoddi a gyflawnwyd i asesu'r effeithiau hyn.

## Dadansoddiad

Fel y crybwyllwyd uchod, byddai unrhyw effeithiau ar bris carbon ETS y DU yn sgil cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yn ETS y DU yn rhy fach i'w mesur yn fanwl yn ein gwaith dadansoddi. Gan hynny, roedd ein hasesiad yn canolbwyntio ar amcangyfrif costau ac effeithiau datgarboneiddio.

Byddai'r costau ychwanegol i'r diwydiant hedfanaeth yn sgil cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yng nghwmpas y cynllun yn dibynnu ar dri phrif ffactor: yr allyriadau sy'n cyfateb i'r hediadau o'r DU i'r Swistir, pris UKAs a nifer y lwfansau am ddim a roddir ar gyfer yr hediadau hyn. Mae'r costau gweinyddol ychwanegol yn annhebygol o fod yn sylweddol, gan y bydd gan fwyafrif helaeth y gweithredwyr cerbydau awyr eisoes systemau Monitro, Adrodd a Dilysu (MRV) ar waith i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd ganddynt i ETS y DU ar gyfer llwybrau eraill.

Yn rhinwedd eu natur, ceir ansicrwydd ynghylch pris UKAs, a bydd hynny'n dibynnu ar nifer fawr o ffactorau, gan gynnwys y taflwybr a ddewisir ar gyfer cap ETS y DU. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn ceisio rhagfynegi sut y gallai pris carbon newid dros amser yn y dyfodol. Mae dadansoddiad mewnol BEIS a’r Adran Drafnidiaeth (DfT) yn awgrymu y gallai costau carbon ychwanegol gynrychioli cynnydd o tua 10-15% yng nghostau amrywiol gweithredu hediadau o’r DU i’r Swistir o ddefnyddio ystod prisiau sy’n gyson â hanner cyntaf 2022. Gan dybio bod y gost lawn yn cael ei throsglwyddo i bris tocynnau - a dylid ystyried hyn yn amcangyfrif ar yr ochr uchel o gostau a drosglwyddir - gallai hyn greu cynnydd tebyg ym mhrisiau tocynnau. Mae gwaith modelu'r Adran Drafnidiaeth yn awgrymu bod elastigedd y galw am hediadau o'r DU i ranbarth "gweddill Ewrop" tua -0.9, gan awgrymu hyd at 9-14% o

ostyngiad yn y galw am yr hediadau hyn ar gyfartaledd, ar yr amod na ellir datgarboneiddio rhai o'r hediadau hyn ar gost sylweddol is na'r pris carbon.[12]

Yn 2023, bydd gweithredwyr cerbydau awyr yn derbyn cyfran o lwfansau am ddim ar gyfer yr Hediadau o'r DU i'r Swistir, gan ddilyn yr un fethodoleg ag a ddefnyddir ar gyfer pob hediad arall yng nghwmpas y cynllun. Bydd taflwybr dyraniadau am ddim ar gyfer hedfanaeth, gan gynnwys dyraniadau am ddim ar gyfer hediadau o'r DU i'r Swistir, yn cael ei bennu yn ymateb llawn y llywodraeth i ymgynghoriad "Datblygu ETS y DU", a disgwylir i newidiadau ddod i rym o 2024. Serch hynny, canfu ymchwil annibynnol i ddadleoli carbon yn sector hedfanaeth y DU nad yw swm y lwfansau a ddyrannir am ddim yn effeithio ar y gyfran o werth y lwfansau sy'n debygol o gael ei throsglwyddo i brisiau tocynnau.[13] Felly, er bod swm y dyraniad am ddim o bwys wrth bennu'r costau i'r diwydiant, bydd yr effaith derfynol ar brisiau tocynnau ac ar y galw yr un peth yn fras waeth fo'r swm hwnnw.

Mae'r dadansoddiad uchod yn awgrymu y byddai allyriadau hediadau o'r DU i'r Swistir yn debygol o ostwng i raddau tebyg i'r galw, felly gallai'r gostyngiad hwnnw fod o fewn yr ystod 9-14%. Yn y tymor byr rhagwelir y bydd hyn yn deillio o ostyngiad mewn capasiti sy'n gysylltiedig â gostyngiad yn y galw. Dros amser, fodd bynnag, disgwylir y bydd mabwysiadu technolegau lleihau cost-effeithiol yn lliniaru'r cynnydd yng nghostau amrywiol gweithredu hediadau o'r DU i'r Swistir.

Fodd bynnag, mae effaith wirioneddol ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys yr hediadau hyn o ran datgarboneiddio, yn dibynnu ar gap ETS y DU y hytrach nag ar allyriadau gwirioneddol yr hediadau hyn. Ar gyfer y cyfnod 2024-2030, bydd cap ETS y DU yn cael ei ddiwygio i'w gysoni â thaflwybr Sero Net. Bydd y taflwybr hwn yn rhoi cyfrif am hediadau o'r DU i'r Swistir: byddem felly'n disgwyl allyriadau ychwanegol yn y sector a fasnachir sy'n hafal i nifer y lwfansau ychwanegol i roi cyfrif amdanynt, dros oes y cynllun. Fodd bynnag, gan mai swm cymharol fach o allyriadau sydd dan sylw, nid oes modd mapio cyfran benodol o'r cap cyson â sero net i'r hediadau hynny. Nid ydym felly'n ceisio creu amcangyfrif ar wahân o effeithiau datgarboneiddio'r hediadau hyn ar eu pen eu hunain: dylid asesu'r effaith hon yn rhan o effeithiau cyffredinol cap cyson â sero net ar allyriadau hedfan.

Ar gyfer 2023 yn unig, fodd bynnag, ni fyddwn yn addasu'r cap. Mae hynny'n golygu na cheid unrhyw gynnydd net yn allyriadau'r sector a fasnachir yn gysylltiedig â hediadau o'r DU i'r Swistir yn 2023, oherwydd byddai'n rhaid i unrhyw allyriadau fod wedi'u cynnwys yn y gronfa bresennol o lwfansau allyriadau.[14] Serch hynny, caiff yr allyriadau hyn eu tynnu o'r sector a fasnachir, gan greu gostyngiad net yn allyriadau'r DU.

[12] Gellir gweld y fframwaith modelu llawn yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1061972/jet-zero-modelling-framework.pdf. Mae elastigedd pris y galw yn cynrychioli'r newid canrannol yn y galw yn dilyn cynnydd o 1% yn y pris; er enghraifft, os yw elastigedd pris y galw yn -1, byddai cynnydd o 1% ym mhris yr eitem yn arwain at ostyngiad o 1% yn y galw am yr eitem honno.

[13] https://www.gov.uk/government/publications/impacts-of-carbon-pricing-on-the-uk-aviation-sector

[14] Mae hyn yn rhagdybio y byddai'r holl lwfansau yng nghap y ddeddfwriaeth gyfredol yn cael eu rhyddhau i'r farchnad yn y pen draw a'u defnyddio er cydymffurfiaeth.

Byddai'r arbedion o ran allyriadau yn y flwyddyn honno felly'n creu cyfanswm o oddeutu 0.28 Mt CO2, o dybio y byddai allyriadau o'r hediadau hyn yn 2023 yr un peth ag yr oeddent yn 2019.[15] O ddilyn canllawiau BEIS ar brisio newidiadau allyriadau GHG, byddai'r rhain yn cynrychioli budd rhwng £35m-£105m i gymdeithas, gydag amcangyfrif canolog o £70m.[16] O dybio gostyngiad o 12% mewn allyriadau yn sgil prisio carbon yn y flwyddyn honno (sef canolbwynt bras yr ystod a amcangyfrifwyd uchod), cyfanswm y lwfansau ychwanegol y byddai angen i weithredwyr cerbydau awyr eu hildio yn y flwyddyn honno fyddai tua 240,000. O drosi hyn yn arian gan ddefnyddio'r ystod o brisiau UKA a welwyd yn hanner cyntaf 2022, byddai hyn yn gyfystyr â chost ychwanegol o oddeutu £18-£21m ym mlwyddyn gydymffurfio 2023.

Yn olaf, fel y nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth, er y bydd hediadau o Brydain i'r Swistir wedi'u cynnwys yng nghwmpas y cynllun o 1 Ionawr 2021, ni fydd hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir ond yn cael eu cynnwys ar ôl i Gynulliad Gogledd Iwerddon allu bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth. Disgwylir mai bach fydd effaith yr oedi rhannol hwn wrth ehangu'r cynllun i gynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir, gan fod hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir i gyfrif am lai nag 1% o'r allyriadau o hediadau o'r DU i'r Swistir yn 2019, hy, tua 0.01 Mt CO2 o 0.28 Mt CO2.

## Risgiau a chyfyngiadau sy'n weddill

Mae'r dadansoddiad uchod yn gymesur ac ystyried mai swm bach o allyriadau sy'n cael eu hychwanegu at y cynllun, a chan mai llenwi bwlch yn ymdriniaeth yr ETS y mae'r penderfyniad hwn i bob pwrpas. Nid yw'n ceisio ynysu effeithiau datgarboneiddio'r is-adran o hediadau y mae'r penderfyniad yn effeithio arni y tu hwnt i 2023, nac asesu effaith y penderfyniad ar bris carbon ETS y DU. Fodd bynnag, mae'r naill effaith a'r llall yn annhebygol o fod yn sylweddol ar eu pen eu hunain, am y rhesymau a amlinellir uchod.

[15] Yn 2019, roedd hyn yn cyfateb i lai na 3% o allyriadau hedfan o fewn cwmpas y cynllun.
[16] https://www.gov.uk/government/publications/valuing-greenhouse-gas-emissions-in-policy-appraisal/valuation-of-greenhouse-gas-emissions-for-policy-appraisal-and-evaluation

# Atodiad Dadansoddol - Diwygiadau i'r Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgarwch yn sgil blwyddyn 2020 COVID.

## Dull Dadansoddol

**Nid y dadansoddiad a drafodir yn yr atodiad hwn yw'r asesiad terfynol o gymhwystra nac o ddiwygiadau i ddyraniadau gweithfeydd**; disgwylir i'r rhain gael eu hasesu'n rhan o broses ALC 2022. Bydd yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno tystiolaeth i'w Rheoleiddiwr perthynol i ddangos eu bod yn bodloni'r lefel trothwy a bod yr anghysondeb rhwng allyriadau a gostyngiadau mewn gweithgarwch wedi'i achosi gan y pandemig.

Cynhaliwyd dadansoddiad er mwyn 1) Cefnogi'r penderfyniad ynghylch a ddylid ymyrryd ai peidio, 2) Datblygu manylion ychwanegol i lywio penderfyniadau ynghylch y dyluniad, y fethodoleg a'r data a ddefnyddir yn yr ymyrraeth polisi (ee, y trothwy), 3) Darparu tystiolaeth ynghylch yr effeithiau uniongyrchol posibl ar newidiadau i lefel gweithgarwch 2022, o dan fanylebau posibl y polisi, ac ystyried yr wybodaeth sydd ar gael.

Wrth ddadansoddi, defnyddiwyd data a gyflwynwyd i'r rheoleiddwyr ar gyfer proses ALC 2022, a data a fodolai eisoes ers dechrau cyflwyno lwfansau am ddim ac ALCs dilynol er mwyn amcangyfrif newidiadau ALC 2022, ar raddfa is-weithfeydd. Aeth wedyn ati i amcangyfrif effaith y polisi drwy amcangyfrif (ceir diffiniad o'r terminoleg isod): yr **anghysondeb** rhwng allyriadau ac allbwn, a chymharu hyn ag opsiynau **trothwy amrywiol** i bennu **cymhwystra**. Cafodd is-weithfeydd cymwys eu **hailgyfrifo** drwy ddefnyddio'r fethodoleg ddiwygiedig a gynigiwyd.

| **Terminoleg** | **Dull (y dadansoddiad hwn yn unig[17])** |
|---|---|
| **Anghysondeb (amcangyfrif)** | Y gwahaniaeth *pwynt canran* rhwng y *newid canrannol* o ran allyriadau, a'r newid canrannol mewn lefel gweithgarwch (2019-2020[18]. |
| **Trothwy (opsiynau)** | Y gwerth y caiff yr anghysondeb ei gymharu yn ei erbyn. Roedd y gwerthoedd **a** brofwyd yn cynnwys 0%, 5%, 10%, 15% ac 20% (ymhlith eraill). |
| **Cymhwystra (amcangyfrif)** | Cymhwystra: amcangyfrifir bod gan is-weithfeydd ostyngiadau drwy ALCs 2022 a bod unrhyw anghysondeb yn fwy na'r trothwy. |
| **Ailgyfrifo (amcangyfrif)** | Caiff ALCs 2022 eu hailgyfrifo (gan gynnwys er mwyn ystyried *a yw ALC yn berthnasol*) drwy defnyddio AAL diwygiedig yn seiliedig ar ddata gweithgarwch 2019 a 2021, yn hytrach na 2020 a 2021. |

[17] Defnyddiwyd y dull hwn ar gyfer y dadansoddiad cychwynnol; mae'r fethodoleg derfynol yn destun adolygiad.
[18] Er enghraifft, pe bai allyriadau'n gostwng (-25%), a gweithgarwch yn gostwng (-31%) rhwng 2019 a 2020, byddai'r anghysondeb yn cael ei asesu'n 6%. Byddai angen i hyn fod yn uwch na'r "trothwy".

## Crynodeb o'r prif effeithiau

Dangosai'r dadansoddiad mai ychydig o dystiolaeth, os o gwbl, o anghysondebau sylweddol a gafwyd rhwng allyriadau a gweithgarwch ym mwyafrif yr is-weithfeydd. Mae hyn yn gyson â'r modd y disgwylir i'r cynllun weithio fel arfer, lle cysylltir gostyngiadau mewn allbwn â gostyngiad cyfatebol i fewnbwn a gweithgarwch, ac allyriadau yn sgil hynny. Gan hynny, disgwylir i'r ymyrraeth effeithio ar leiafswm cymharol fach o is-weithfeydd, ar draws y rhan fwyaf o ystodau trothwy. Mae'r safleoedd hyn yn cynrychioli cyfran fechan o gyfanswm y gostyngiadau ALC (yn nhermau niferoedd y dyraniadau am ddim). Fodd bynnag, er mai cymedrol oedd yr effeithiau gyda'i gilydd, darparodd dystiolaeth bod gan rai cwmnïau anghysondebau sylweddol, gan gefnogi'r rhesymeg o blaid ymyrraeth, a nodir yn nhestun ymateb cynnar y llywodraeth.

Yn gyfansymiol, dangosai'r dadansoddiad, yn achos yr amcangyfrif o safleoedd cymwys, y byddai cyfran fawr o ostyngiadau ALC 2022 yn dal i ddigwydd ar ôl ailgyfrifo, gan ddangos bod y mecanwaith ALC yn dal i weithio'n unol â'r bwriad ar y cyfan. Gan hynny, byddai llawer o safleoedd a fyddai'n elwa yn dal i brofi rhywfaint o ostyngiad mewn FAs yn sgil ALCs, ond byddai'r gostyngiadau hyn o faint llai. Unwaith eto, er bod yr effeithiau cyfansymiol yn gymharol fach, amcangyfrifwyd bod effaith y newid o bwys o ran y safleoedd a fyddai'n elwa, gan gefnogi eto'r rhesymeg o blaid ymyrraeth. Roedd yr effeithiau wedi'u gwasgaru ar draws amrywiaeth o sectorau, ond roedd y safleoedd unigol mwyaf â thystiolaeth bosibl o anghysondeb yn y sectorau puro ac olew a nwy.

Ac ystyried na fyddai'r newidiadau'n berthnasol i'r blynyddoedd nesaf, ac mai ychydig o gwmnïau yr amcangyfrifwyd y byddai hyn yn effeithio arnynt, a'r amcangyfrif isel o lwfansau ychwanegol a fyddai'n cael eu rhoi[19] (o gymharu â chyfanswm y cyflenwad), nid ydym yn disgwyl y ceir unrhyw effaith o bwys ar bris carbon, allyriadau na'r risg o ddadleoli carbon. Y brif effaith fydd trosglwyddiad cymdeithasol cymedrol o'r llywodraeth i gwmnïau cymwys, ar ffurf y lwfansau am ddim ychwanegol.

Defnyddiwyd y dadansoddiad yn sail ar gyfer y penderfyniad ynghylch y trothwy, a hynny'n bennaf drwy amcangyfrif nifer a dosbarthiad safleoedd yr effeithir arnynt ar drothwyon amrywiol, a maint y newid mewn FA a gyflwynwyd. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon ochr yn ochr â thystiolaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth o reolau FA ac ALC presennol i lywio'r penderfyniad ynghylch trothwy.

## Risgiau a chyfyngiadau sy'n weddill

Nid y dadansoddiad a drafodir yn yr atodiad hwn yw'r asesiad terfynol o gymhwystra nac o ddiwygiadau i ddyraniadau gweithfeydd.

- Y rheswm pennaf am hyn yw bod y data a ddefnyddiwyd yn ddata rhagarweiniol. Defnyddiwyd y data ALC cychwynnol 2022 a oedd ar gael gennym, a barnwyd bod cwmpas ac ansawdd y data hynny'n ddigonol ar gyfer y dadansoddiad cychwynnol i

[19] Yma mae "lwfansau ychwanegol a roddwyd" fel arfer yn golygu gostyngiad o faint llai o ALCs,  yn hytrach na chynnydd gros yn y lwfansau a roddwyd.

llywio penderfyniadau polisi. Fodd bynnag, wrth gynnal y dadansoddiad nid oedd Rheoleiddwyr eto wedi cwblhau eu prosesau sicrwydd na phennu eu data'n derfynol.

- Yn ogystal â hynny, ymdriniwyd yn gymesur ag elfennau o'r fethodoleg ar gyfer asesu cymhwystra, ee yr ymdriniaeth â data coll neu wallus, fel bo modd cynnal dadansoddiad cychwynnol. Fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth fanylach i hyn yn yr asesiad terfynol.
- Yn olaf, nid ydym eto wedi casglu (nac felly ystyried) y dystiolaeth o safleoedd fod gostyngiadau mewn gweithgarwch wedi'u hachosi gan y pandemig. O ganlyniad i hynny, seiliwyd ein gwaith dadansoddi ar amcangyfrifon o newidiadau lefel gweithgarwch hanesyddol o gymharu â newidiadau yn lefel yr allyriadau, gan dybio bod yr holl newidiadau hynny wedi'u hachosi gan y pandemig.

Fodd bynnag, roedd y dadansoddiad yn ddigonol i gefnogi penderfyniadau ynghylch a ddylid ymyrryd a sut i wneud hynny, a’r ymagwedd at fethodoleg yr ymyrraeth.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael gan: www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost i enquiries@beis.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd rhoi gwybod inni pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio o gymorth inni.